

**Arolygiad Rheoliadau
Ymbelydredd Ìoneiddio
(Cysylltiad Meddygol) (Lle
Rhoddwyd Rhybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro: Ysbyty
Athrofaol Cymru, Delweddu
Diagnostig

Dyddiad yr arolygiad: 17/18 Awst 2021

Dyddiad cyhoeddi: 19 Tachwedd 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom..	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	34
4.	Beth nesaf?.....	45
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio	47
	47
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	49
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	50
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	51

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Delweddu Diagnostig yn Ysbyty Athrofaol Cymru ar 17 a 18 Awst 2021. Gwnaethom ymweld ag Adran Delweddu Diagnostig Ysbyty Athrofaol Cymru yn ystod ein harolygiad. Roedd hyn yn ymgorffori'r canlynol:

- Yr Adran Achosion Brys
- Ysbyty Pediatrig (Ysbyty Plant Cymru)
- Y Prif Adran

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac uwchswyddog clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Iechyd Cyhoeddus Lloegr, a gyflawnodd swyddogaeth gynghori.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (RhYİ(CM) 2017)
- Bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015)

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd gan staff ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn unol â RhYĪ(CM) 2017.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod staff yn trin cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Roedd trafodaethau â staff trwy gydol ein harolygiad yn rhoi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, amlygwyd nifer o feysydd yn ymwneud â sicrhau bod y ddogfennaeth sy'n ofynnol o dan RhYĪ(CM) ar waith, gan gynnwys sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig RhYĪ(CM) y cyflogwr yn adlewyrchu arfer clinigol yn gywir.

At ei gilydd, roedd staff yn hapus â lefel y cymorth a ddarperir gan arweinwyr yr adran. Fodd bynnag, amlygwyd pryderon gan sawl aelod o staff a oedd yn teimlo bod ymdeimlad o wahaniaethu wedi bod yn y gweithle.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion a gwblhaodd yr arolwg yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir
- Cynhaliwyd preifatrwydd ac urddas cleifion
- Roedd yr adran wedi ystyried anghenion cyfathrebu'r cleifion yn yr adran
- Roedd nifer o fentrau wedi'u sefydlu i wneud yr adran yn lle cynhwysol i bob claf
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u gofynion fel deiliad dyletswydd o dan RhYĪ(CM) 2017
- Gwaith atal heintiau a dihalogi effeithiol

- Cyfathrebu da rhwng staff yr adran a rheolwyr
- Yn gyffredinol, roedd sylwadau staff yn yr arolwg yn gadarnhaol

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dileu unrhyw feysydd posibl o wahaniaethu
- Amlygwyd nifer o feysydd yn ymwneud â sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr yn adlewyrchu ymarfer clinigol yn gywir. Mae hefyd angen dileu dyblygu ac amwysedd ac ychwanegu eglurder i ddarparu cyfres fwy cyson a chadarn o weithdrefnau cyflogwr fel sy'n ofynnol o dan RhYŷ(CM)
- Rhaid cadw'r rhestr cyfarpar yn gyfredol
- Sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn yr amserlenni gofynnol
- Arfarniadau blynyddol i'r holl staff

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 1 Hydref 2009 ac mae'n darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbytai ac iechyd meddwl i'r bobl yn siroedd Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd yn darparu'r gwasanaethau hyn i boblogaeth o oddeutu 505,000 o bobl.

Mae gan Ysbyty Athrofaol Cymru 1,080 o welyau ac mae wedi'i leoli yng Nghaerdydd; hwn yw'r trydydd ysbyty athrofaol mwyaf yn y DU a'r ysbyty mwyaf yng Nghymru. Mae safle Ysbyty Athrofaol Cymru hefyd yn gartref i ysbyty deintyddol ac Arch Noa, sef Ysbyty Plant Cymru.

Roedd yr Adran Radioleg yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn cynnwys gwasanaethau radioleg yn yr adran achosion brys ac yn Ysbyty Plant Cymru. Roedd cyfarpar yr adran yn cynnwys cyfarpar radiograffeg cyffredinol diagnostig a chyfarpar pelydr-X symudol, cyfarpar fflworosgopeg symudol gyda braich siâp C¹ a chyfarpar fflworosgopeg cyffredinol,² cyfarpar cathetreiddio ymyriadol a chardiaidd pwrpasol,³ sganwyr tomograffeg cyfrifiadurol,⁴ a chyfarpar deintyddol.

Mae'r adran yn cyflogi nifer o staff, gan gynnwys radiograffwyr adrodd uwchymarfer, radiograffwyr, radiolegwyr ymgynghorol, nyrsys, porthorion, cynorthwyywyr yr adran radioleg, a staff gweinyddol a chlerigol.

Mae'r adran yn darparu gwasanaeth y tu allan i oriau a ddarperir gan radiograffwyr a chofrestryddion radioleg, ac fe'i cefnogwyd hefyd gan ddarparwr

¹ Mae braich siâp C yn ddwysydd sganiwr delweddu. Mae'r enw'n deillio o'r fraich siâp C a ddefnyddir i gysylltu'r ffynhonnell pelydr-X a'r synhwyrdd pelydr-X â'i gilydd. Mae gan freichiau siâp C alluoedd radiograffig, er eu bod yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer delweddu mewndriniaethol fflworosgopig yn ystod gweithdrefnau llawfeddygol, orthopedig a gofal brys.

² Mae fflworosgopeg yn fath o ddelweddu meddygol sy'n dangos delwedd pelydr-X parhaus ar fonitor, yn debyg iawn i fideo pelydr-X.

³ Mae hyn yn cynnwys gosod tiwb cul yn y galon trwy rydweli i archwilio pa mor dda mae'r galon yn gweithredu.

⁴ Mae sganiwr tomograffeg gyfrifiadurol yn beiriant mawr siâp toesen gyda thwnnel yn y canol lle mae'r sganio yn digwydd. Mae rhywun yn gorwedd ar fwrdd gwastad sy'n llithro i mewn i'r twnnel ac allan ohono. Weithiau, gall y tîm meddygol ddefnyddio clustogau neu strapiau i gadw'r unigolyn yn y safle cywir tra bo'r sgan yn cael ei gynnal.

trydydd parti sy'n darparu cyfiawnhad a gwerthusiad clinigol ar gyfer sganiau tomograffeg gyfrifiadurol y tu allan i oriau. Mae gan yr adran hefyd gyngor a chymorth a ddarperir gan arbenigwyr ffiseg feddygol⁵ a gyflogir gan Wasanaeth Diogelu rhag Ymbelydredd Caerdydd, rhan o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

⁵ Mae arbenigwr ffiseg feddygol yn unigolyn sydd â gwybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â ffiseg ymbelydredd sy'n berthnasol i achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ym maes radioleg ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae awdurdod cymwys yn cydnabod ei gymhwysedd yn hyn o beth. Mae RhŶI(CM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob cyflogwr sy'n gyfrifol am achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan gleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod staff yn trin cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau digonol ar waith ar y cyfan i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion sy'n mynychu'r adran.

Cyhoeddodd AGIC arolygon ar-lein ac ar bapur i gael barn cleifion ar yr Adran Radioleg Ddiagnostig yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o 101 o ymatebion (naw arolwg ar-lein a 92 arolwg papur). Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y gallai eu sylwadau gael eu cyhoeddi'n ddiennw yn ein hadroddiad. Nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau.

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Gwirioneddol garedig a llawn cydymdeimlad”

“Roedd y staff yn garedig, gofalgar ac ystyriol iawn”

“Roeddwn yn hapus iawn i dderbyn y gwasanaeth a ddarparwyd”

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd 95 o'r rhai a ymatebodd o'r farn bod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda. Dywedodd bron pob un o'r cleifion a ymatebodd ei bod hi'n hawdd iawn neu'n weddol hawdd dod o hyd i'w ffordd i'r adran.

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi arolwg ar-lein i gael barn staff ar yr adran delweddu diagnostig yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o 59 o ymatebion gan staff yr ysbyty. Nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau.

Cawsom ymatebion gan amrywiaeth o staff, gan gynnwys radiograffwyr, staff clerigol, nyrsys, a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Roedd y staff wedi gweithio yn yr adran ers llai na blwyddyn hyd at fwy na deng mlynedd.

Cadw'n iach

Arddangoswyd gwybodaeth ym mhrif dderbynfa ac ardal aros cleifion yr adran ar sut y gallai cleifion ofalu am eu hiechyd eu hunain. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn cynnwys cyngor ar roi'r gorau i ysmegu, ymwybyddiaeth o alcohol a ffyrdd iach o fyw. Yn ogystal â hyn, arddangoswyd y poster Cymru gyfan "Cael sgan pelydr-X", a oedd yn nodi pa mor bwysig yw hi i hysbysu staff os yw cleifion yn meddwl ei bod hi'n bosib eu bod yn feichiog, neu eu bod yn gwybod eu bod yn feichiog. Roedd posteri tebyg hefyd yn cael eu harddangos yn y ddwy adran arall yr ymwelwyd â nhw (yr adran achosion brys a'r adran bediatrig yn Ysbyty Plant Cymru).

Gofal ag urddas

Yn ystod ein hamser yn yr adran, gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cwrtais, sensitif a phroffesiynol. Dywedodd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd arolwg eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff, a chadarnhaodd pob claf eu bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwyleidd-dra eu hunain yn ystod eu hapwyntiadau. Dywedodd 37 o'r 39 aelod o staff a atebodd y cwestiwn fod preifatrwydd ac urddas cleifion bob amser, neu fel arfer, yn cael eu sicrhau, a dywedodd dau eu bod yn cael eu sicrhau weithiau.

Ni chlywyd unrhyw sgysiau sensitif rhwng staff a chleifion yn y brif ystafell aros. Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn dechrau eu triniaeth neu weithdrefn. Cafodd cleifion eu cyfarch gan staff y dderbynfa ac yna byddai'r radiograffydd yn eu casglu o'r ystafell aros pan oedd yn barod. Ni chlywsom unrhyw sgysiau sensitif a gynhaliwyd yn yr adran yn ystod ein hymweliad. Dywedodd 86% o'r cleifion a atebodd y cwestiwn eu bod yn gallu siarad â staff am eu triniaeth neu weithdrefn heb gael eu clywed gan bobl eraill. Dywedodd 96% o gleifion fod staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad.

Er na welsom gleifion yn cael eu triniaethau, gwelsom staff yn cyfarch cleifion mewn modd cyfeillgar. Fe'n hysbyswyd bod drysau i ystafelloedd archwilio wedi'u cloi pan oedd archwiliadau yn cael eu cynnal.

Roedd prif ardal aros yr adran wedi'i haildrefnu i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol rhwng cleifion sy'n aros. Arddangoswyd arwyddion ar y cadeiriau na ddylent gael eu defnyddio. Roedd nifer y seddi sydd ar gael yn yr adran yn

ymddangos yn briodol ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn mynychu yn ystod ein hymweliad. Roedd cadeiriau wedi'u trefnu hefyd yn yr ail ystafell aros a oedd yn union y tu allan i'r ystafelloedd archwilio er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol.

Roedd ystafelloedd newid ar gael i gleifion yr oedd yn ofynnol iddynt dynnu eu dillad cyn eu triniaeth. Roedd ystafelloedd newid hefyd ar gael yn yr adran bediatrig, gan gynnwys ystafelloedd newid babanod. Roedd toiledau niwtral o ran rhyw hefyd ar gael ym mhrif ystafell aros yr adran.

Gwybodaeth i gleifion

Fel y manylwyd yn flaenorol, gwelsom dystiolaeth o bosteri yn cael eu harddangos yn ardal aros yr adran, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am fuddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd sy'n rhan o'r archwiliadau a gynhelir.

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith a oedd yn disgrifio sut y dylid cyfleu buddion a risgiau dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio i gleifion. Roedd y weithdrefn hon yn nodi y dylid rhoi'r wybodaeth i'r claf mewn fformat y gellid ei ddeall, h.y. meintiol i'r ymbelydredd o ran dyddiau'r ymbelydredd cefndirol a dderbynnir. Dylai hyn hefyd gynnwys y budd o gael yr archwiliad a gwneud y diagnosis cywir, neu fod dewis y driniaeth gywir yn gorbwyso'r risg sy'n gysylltiedig â'r archwiliad. Roedd gan bob ystafell pelydr-X restr o archwiliadau a'r dyddiau a misoedd cyfatebol o ymbelydredd cefndirol yr oeddent yn gyfwerth â hwy. Gwnaethom nodi y gellid gwella gweithdrefn hon y cyflogwr trwy gynnwys y manylion canlynol:

- Pa wybodaeth fydd yn cael ei darparu
- Pwy fydd yn darparu'r wybodaeth
- Y mathau o gyfathrebu i'w defnyddio
- Sut mae staff yn cyrchu cymorth os oes angen gwybodaeth ychwanegol
- Sut mae'r dull cyfathrebu a'i lefel yn adlewyrchu'r risg
- Beth i'w wneud pan fydd gwahanol heriau o ran cyfathrebu
- Sefyllfaoedd pan na ddarperir cyfathrebu ar y buddion a'r risgiau

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod trafodaethau llafar gyda'r claf yn digwydd yn rheolaidd cyn gweithdrefnau ynghylch buddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd. O'r holiaduron cleifion, dywedodd 93% o'r cleifion a ymatebodd i'r holiaduron eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir i ddeall buddion a risgiau opsiynau eu triniaeth. Yn ogystal â hyn, dywedodd 97% arall eu bod yn

teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn dymuno mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch eu harchwiliad/triniaeth. O'r holiaduron staff, dywedodd yr holl staff, oni bai am ddau, eu bod bob amser, neu fel arfer, yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am ofal eu claf. Dywedodd y ddau arall eu bod yn cymryd rhan weithiau.

Cadarnhaodd 83% o gleifion eu bod wedi cael gwybodaeth ar sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu harchwiliad, a dywedodd 97% o staff eu bod bob amser, neu fel arfer, yn fodlon ag ansawdd y gofal a roddent i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefn buddion a risgiau'r cyflogwr yn cael ei diweddarau fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom nodi bod dolen sain ar gael yn y prif ystafell aros ar ddesg y dderbynfa. Disgrifiodd y derbynnydd sut roedd y cyfarpar yn gweithio a chadarnhaodd ei fod yn cael ei ddefnyddio weithiau gan gleifion sy'n ymweld â'r adran.

Roedd gwybodaeth a phosteri dwyieithog yn cael eu harddangos yn yr adran. Roedd yr arwyddion i'r adran yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd arwydd Cymraeg hefyd wedi'i arddangos ar sgrin glir wrth ddesg y dderbynfa. Roedd yr hysbysiad yn cynghori cleifion y gallent siarad yn Gymraeg â staff pryd bynnag y byddent yn gweld arwyddlun Cymraeg ar wisgoedd staff. Hefyd, roedd yr arwydd yn nodi y byddai'r adran yn gwneud ei gorau i gynnig gofal yn iaith ddewisol y claf, er efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser. Gwelwyd yr arwydd hwn hefyd mewn ystafelloedd aros eraill yr ymwelwyd â hwy.

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn perthnasol ar yr holiadur eu bod yn gallu cyfathrebu â staff yn eu hiaith ddewisol. Hefyd dywedodd pob claf fod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu hiaith ddewisol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y staff sy'n siarad Cymru yn gwisgo laniardiau perthnasol ac roedd hyn hefyd ar wisgoedd y staff. Fe wnaethant hefyd nodi bod llythyrau apwyntiadau yn ddwyieithog, ac yn hysbysu'r claf i roi gwybod os oedd

eisiau trafod drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedwyd wrthym hefyd am y 'Cynnig Rhagweithiol'.⁶

Defnyddiwyd y system wybodaeth radiolegol⁷ i gofnodi gwybodaeth am anghenion cleifion. Pan drefnwyd y driniaeth, gwnaed addasiadau perthnasol, megis ar gyfer cleifion sy'n drwm eu clyw, pan fyddai dulliau fel darllen gwefusau ac ysgrifennu gwybodaeth yn cael eu defnyddio. Os na allai cleifion siarad Saesneg, defnyddiwyd gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn.

Dywedwyd wrthym hefyd fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno nifer o fentrau i helpu cleifion, gan gynnwys y rhain:

- Roedd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) wedi cynnal cyrsiau hyfforddi ar gyfer y bwrdd iechyd
- Dyluniwyd ystafelloedd aros ar y cyd â Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall a chyrrff dementia, gyda lliwiau priodol
- Roedd llyfr gyda gwahanol ieithoedd ar gyfer cymorth cyntaf ar gael
- Mae un aelod o staff wedi cael gwobr cydnabyddiaeth i staff am hyrwyddo'r Gymraeg yn yr adran

Gofal amserol

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw, pe bai unrhyw oedi, byddent yn hysbysu prif ddesg y dderbynfa. Gwnaethom dreulio peth amser yn y brif dderbynfa yn arsylwi ar y cleifion a'r ardal. Er na chlywsom ni gleifion yn cael gwybod am amseroedd aros gan staff y dderbynfa wrth gyrraedd yr adran, ni welwyd unrhyw gleifion yn aros yn hwy na deg munud i gael eu gweld. Dim ond

⁶ Yn syml, ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r Gymraeg fod yr un mor weladwy â'r Saesneg.

⁷ System wybodaeth radiolegol yw'r system graidd ar gyfer rheoli adrannau delweddu yn electronig. Gall prif swyddogaethau'r system wybodaeth radiolegol gynnwys amserlennu cleifion, rheoli adnoddau, olrhain perfformiad archwiliadau, adrodd, dosbarthu canlyniadau, ac anfon biliau am driniaethau. Mae'r system wybodaeth radiolegol yn ategu systemau gwybodaeth ysbytai a'r system archifo lluniau a chyfathrebu, ac mae'n hanfodol i lif gwaith effeithlon mewn arferion radioleg.

dau o'r 82 o gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn ar yr holiadur a ddywedodd fod yn rhaid iddynt aros dros 30 munud.

Nododd mwyafrif helaeth y cleifion a ymatebodd i'r holiadur ei bod hi'n weddol hawdd o leiaf i wneud apwyntiad.

Hawliau cleifion

Gwnaethom siarad ag aelodau o staff, gan gynnwys uwch-staff, a dywedasant fod gan y bwrdd iechyd werthoedd a datganiad cenhadaeth i drin pawb yn deg. Roedd yr ardaloedd radioleg yn hygyrch i gadeiriau olwyn, gyda staff yn siarad nifer o wahanol ieithoedd. Dywedodd uwch-staff fod ganddynt bolisi drws agored, a'u bod yn gweithio gyda staff ar werthoedd y bwrdd iechyd, gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Dywedodd mwyafrif helaeth y cleifion eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg iawn, ac nid oedd unrhyw nodweddion gwarchodedig⁸ yn cael effaith ar hyn. Dywedodd dau glaf eu bod wedi wynebu gwahaniaethu wrth gyrchu neu ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd hwn. Trafodir y maes hwn ymhellach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Gofal unigol

Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd staff wrthym, ar yr adegau pan godwyd pryderon ar lafar gan gleifion, y gwnaed ymdrechion, lle bo hynny'n bosibl, i siarad â'r claf ar unwaith i geisio helpu i ddatrys unrhyw faterion neu bryderon yn gyflym ac yn effeithlon. Lle nad oedd hyn yn bosibl, dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu cyfeirio at y broses bryderon.

Dywedodd hanner yr ymatebwyr a oedd yn staff nad oeddent yn gwybod a gasglwyd adborth am brofiad cleifion / defnyddwyr gwasanaethau yn eu cyfarwyddiaeth neu yn eu hadran. Yn yr un modd, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr staff nad oeddent yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar adborth am

⁸ Mae nodweddion gwarchodedig yn agweddau penodol ar hunaniaeth unigolyn a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef oedran, anabledd, aibennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r 'gwarchod' yn ymwneud â gwarchod rhag gwahaniaethu.

brofiad cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn eu cyfarwyddiaeth neu yn eu hadran. Yn ogystal â hyn, dywedodd mwyafrif y staff a ymatebodd i'r holiadur nad oeddent yn gwybod a oedd adborth gan gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth neu yn eu hadran. Fe'n hysbyswyd gan y rheolwyr y byddai adborth ar ganlyniadau unrhyw arolwg yn cael ei roi i gleifion. Fodd bynnag, ni fu unrhyw arolygon boddhad cleifion yn ystod y 18 mis diwethaf oherwydd COVID-19, ac fe wnaethom gadarnhau hyn gyda thîm profiad y claf.

Roedd taflenni gwybodaeth a phoster ar gael yn yr adran mewn perthynas â gweithdrefn gwynion Cymru gyfan y GIG, o'r enw Gweithio i Wella.⁹ Roedd taflenni gwybodaeth dwyieithog yn ymwneud â'r Cynghorau Iechyd Cymuned hefyd yn cael eu harddangos yn yr ardal aros.¹⁰

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn deall sut mae adborth cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau.

⁹ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddiwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

¹⁰ Cynghorau Iechyd Cymuned yw llais annibynnol pobl Cymru sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG. Mae'r cynghorau yn cynnwys gwirfoddolwyr lleol sy'n byw yn y cymunedau y maent yn gwasanaethu ynddynt. Fe'u cefnogir gan grŵp bach o staff sy'n cael eu talu.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn dilyn trafodaethau manwl gydag uwch-staff, darparwyd sicrwydd bod ymarfer clinigol yn ymddangos yn ddiogel ac, yn gyffredinol, deallwyd gofynion statudol RhYİ(CM). Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei adlewyrchu yng ngweithdrefnau'r cyflogwr, sy'n ofyniad cyfreithiol o dan RhYİ(CM).

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddangos ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau RhYİ(CM). Fodd bynnag, amlygwyd nifer o feysydd yn ymwneud â sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig yn adlewyrchu ymarfer clinigol yn gywir.

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau digonol wedi'u gweithredu gan y gwasanaeth i ganiatáu atal heintiau a dihalogi yn yr adran yn effeithiol.

Roedd trafodaethau â staff trwy gydol ein harolygiad yn rhoi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd İoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Cyn ein harolygiad, roedd AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i staff ar lefel uwch a lefel adran lenwi ffurflen hunanasesu. Roedd hyn er mwyn darparu AGIC â gwybodaeth fanwl am yr adran, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr ar waith, mewn perthynas â RhYİ(CM) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu. Gwnaethom nodi bod nifer o weithdrefnau a ddyblygwyd. Roedd y gweithdrefnau hefyd yn brin o eglurder ac yn gofyn am wybodaeth bellach i'r staff eu dilyn. Gwnaethom siarad â staff yn fanwl am gynnwys y ffurflen hunanasesu a chawsom ein sicrhau bod dealltwriaeth yn gyffredinol o ofynion RhYİ(CM), ond nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngweithdrefnau'r cyflogwr sydd wedi'u dogfennu. Roedd ymarfer clinigol yn ymddangos yn ddiogel ond roedd angen adlewyrchu hyn yng ngweithdrefnau'r

cyflogwr. Roedd angen adolygu'r fformat a'r wybodaeth i ddarparu 14 gweithdrefn cyflogwr glir fel sy'n ofynnol gan RhYŷ(CM).¹¹ Dylai hyn gynnwys manylion o'r ddogfen sy'n disgrifio'r goblygiadau ar gyfer ymarfer clinigol mewn delweddu diagnostig, radioleg ymyriadol a meddygaeth niwclear ddiagnostig ('Implications for clinical practice in diagnostic imaging, interventional radiology and diagnostic nuclear medicine')¹² i staff eu dilyn.

'Gweithdrefn cysylltiad cleifion ag ymbelydredd ÷oneiddio' yw polisi trosfwaol y sefydliad sy'n darparu disgrifiad cyffredinol o'r hyn a wneir i gleifion ynghylch defnyddio ymbelydredd ÷oneiddio. Yn gyffredinol, roedd yn ddogfen glir a diamwys. O dan y polisi diogelwch ymbelydredd lefel uchel hwn, dylai fod 14 gweithdrefn cyflogwr, sy'n ofynnol o dan RhYŷ(CM). Dylai'r gweithdrefnau hyn ddarparu prosesau clir i staff eu dilyn. Mae cyfarwyddiadau gwaith a gweithdrefnau gweithredu safonol, os oes eu hangen, wedi'u gosod o dan weithdrefnau'r cyflogwr. Dylid osgoi dyblygu gwybodaeth a phrosesau trwy gynnwys hyperddolenni, neu ddolenni ysgrifenedig, ac ni ddylid ailadrodd prosesau ar draws sawl dogfen.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn i staff ei dilyn i adnabod cleifion yn gywir cyn eu cysylltiad ag ymbelydredd. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y claf cywir yn cael y cysylltiad ag ymbelydredd cywir, yn unol â gofynion RhYŷ(CM) 2017. Roedd y weithdrefn yn nodi bod disgwyl i staff gadarnhau enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad cartref y claf.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r weithdrefn gywir i adnabod cleifion cyn unrhyw archwiliadau. Hefyd, dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i'n harolwg y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn

¹¹ Mae Atodlen 2 o RhYŷ(CM) 2017 yn mynnu bod yn rhaid i weithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd gynnwys gweithdrefnau mewn 14 o wahanol feysydd fel y'u rhestrir yn yr atodlen.

¹² Mae'r canllaw hwn yn ceisio egluro sut y dylid dehongli a defnyddio gofynion y rheoliadau yn ymarferol. Mae'n egluro egwyddorion a gofynion RhYŷ(CM), gan ddarparu senarios clinigol i alluogi dehongliad ymarferol o'r rheoliadau. https://www.rcr.ac.uk/system/files/publication/field_publication_files/irmer-implications-for-clinical-practice-in-diagnostic-imaging-interventional-radiology-and-nuclear-medicine.pdf

yr archwiliad. Cadarnhaodd y cofnodion cleifion a adolygwyd gennym fod y manylion hyn yn cael eu gwirio a'u cofnodi ar y ddogfennaeth. Mae angen eglurder pellach yng ngweithdrefn y cyflogwr ynghylch sut y gellir adnabod y sawl sy'n gyfrifol am y broses gwirio dogfennau adnabod, ac ar gyfer sefyllfaoedd pan fo mwy nag un gweithredwr yn rhan o archwiliad.

Unigolion sydd â'r gallu i gael plant (ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer pennu a oedd unigolyn a oedd o fewn oedran i gael plentyn yn feichiog neu'n bwydo o'r fron, a hynny cyn cael archwiliad. Nod y weithdrefn hon oedd sicrhau bod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud mewn modd safonol a chyson.

Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y dylai staff ei dilyn yn dibynnu ar yr ymatebion. Roedd y manylion yn cynnwys ystod oedran y cleifion y dylid eu gofyn am feichiogrwydd neu fwydo o'r fron, a oedd rhwng 12 a 55 oed.

Gwnaethom nodi hefyd bod posteri yn cael eu harddangos yn yr adran yn cynghori unigolion i siarad â staff os oeddent yn meddwl ei bod hi'n bosib eu bod yn feichiog, neu eu bod yn feichiog. Roedd hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r niwed posibl i blentyn yn y groth o'r cysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd, a oedd yn unol â gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr a ddisgrifir uchod. Fel rhan o'n harolygiad, gwnaethom adolygu sampl ar hap o gofnodion cleifion. Roedd tystiolaeth, o'r sampl o gofnodion a wiriwyd, i nodi bod y gwiriadau perthnasol wedi'u cynnal a'u cofnodi gan staff.

Achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol

Cawsom nifer o weithdrefnau i gwmpasu gofyniad RhYĪ(CM) i gael gweithdrefn cyflogwr ar gyfer bod yn gyfrifol am achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol.¹³ Fodd bynnag, o'r manylion a ddarparwyd yn y ffurflen hunanasesu, nodwyd bod achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu

¹³ Mae achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol yn cynnwys y rhai ar gyfer asesu iechyd at ddibenion cyflogaeth, dibenion mewnffudo a dibenion yswiriant. Gellir cyflawni'r rhain hefyd i nodi gwrthrychau cudd yn y corff.

anfeddygol mewn perthynas â threialon clinigol, nad ydynt o dan RhYŷ(CM) yn cael eu dosbarthu fel cysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol. Yn ystod trafodaethau gydag uwch-staff, roedd yn amlwg nad ydynt yn deall achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol yn llawn. Dylai'r cyflogwr ddarparu gweithdrefn cyflogwr sy'n disgrifio'r prosesau i'w dilyn ar gyfer yr achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol a gyflawnir gan y bwrdd iechyd, gan adlewyrchu'r manylion cywir ar gyfer y maes delweddu hwn. Mae angen mwy o fanylion ar sut mae delweddu anfeddygol yn cael ei nodi, pwy all gael eu hatgyfeirio ar gyfer delweddu anfeddygol, pwy sy'n cyfiawnhau ac yn awdurdodi'r atgyfeiriadau hyn, a sut mae'r achosion hyn o gysylltiad ag ymbelydredd yn cael eu hoptimeiddio ar gyfer pob dosbarth o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol a gyflawnir. Ni ddylid cynnwys cyfeiriadau at dreialon clinigol a delweddu post-mortem yng ngweithdrefn hon y cyflogwr.

Canllawiau atgyfeirio

Y canllawiau atgyfeirio a ddefnyddiodd y cyflogwr oedd cyhoeddiad iRefer¹⁴ Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, sy'n nodi'r canllawiau atgyfeirio a hefyd yn darparu arwydd o'r dos o ymbelydredd i atgyfeirwyr sydd am atgyfeirio claf ar gyfer delweddu. Mewn achosion penodol, defnyddiwyd canllawiau cenedlaethol, ac esboniodd staff fod y ddau ar gael ar mewnwyd y bwrdd iechyd. Roedd porth llwybrau iechyd cymunedol hefyd, sy'n cynnwys canllawiau atgyfeirio ar gyfer y meddygon teulu hynny sydd â mynediad i'r porth.

Roedd gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas ag atgyfeiriadau a chanllawiau atgyfeirio i unigolion eu dilyn. Roedd y wybodaeth a gynhwyswyd yn y ddogfen yn nodi bod atgyfeiriadau wedi'u derbyn gan atgyfeirwyr â hawl ar yr amod eu bod yn unol â'r canllawiau penodol ar gyfer atgyfeirio i'r adran. Roedd y wybodaeth ofynnol yn cynnwys manylion perthnasol y claf, hunaniaeth a llofnod yr atgyfeiriwr, yr archwiliad sy'n ofynnol, a data meddygol sylweddol i gyfiawnhau'r cysylltiad ag ymbelydredd. Fodd bynnag, mae angen diweddarur weithdrefn hon i gynnwys y wybodaeth briodol i staff ei dilyn a'i darllen fel cyfarwyddyd gwaith yn hytrach na gweithdrefn RhYŷ(CM).

¹⁴ Derbynnir iRefer yn eang fel offeryn pwysig i hyrwyddo delweddu ar sail tystiolaeth. Mae iRefer yn gwerthuso tystiolaeth glinigol o ffynonellau amrywiol ac yn defnyddio rhwydwaith o arbenigwyr clinigol i ddilysu gwybodaeth. Mae'n adlewyrchu arfer gorau cyfredol.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud trwy ffurflen gais radioleg y bwrdd iechyd ar bapur. Ac eithrio ffilmiau plaen a cheisiadau brys, roedd rhaid cyflwyno'r rhain i'r adran radioleg ymlaen llaw. Unwaith eto, ac eithrio ffilm blaen,¹⁵ yr oedd rhaid ei chyfiawnhau ar adeg yr apwyntiad, roedd rhaid cyfiawnhau pob cais cyn trefnu apwyntiad.

Adolygwyd sampl ar hap o atgyfeiriadau fel rhan o'r broses wirio dogfennaeth atgyfeirio, ac roedd tystiolaeth o ffurflen atgyfeirio gan y clinigydd ar gyfer gwiriadau cyfredol ac ôl-weithredol o nifer o atgyfeiriadau theatr ar hap.

Roedd yn ymddangos bod y gwaith o reoli atgyfeirwyr anfeddygol yn strwythuredig ac yn effeithiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau'r holl weithdrefnau i sicrhau'r canlynol:

- Mae un weithdrefn glir, ddiamwys i staff ei dilyn sy'n berthnasol i bob un o'r 14 gweithdrefn cyflogwr sy'n ofynnol gan RhYI(CM) 2017
- Dylai pob gweithdrefn gynnwys gwybodaeth a ddarperir yng nghanllaw RhYI(CM)
- Ni ddylai'r holl ddogfennau eraill ddyblygu cynnwys o weithdrefnau'r cyflogwr, ond yn hytrach dylent gyfeirio at gynnwys y ddogfen wreiddiol neu gynnwys hyperddolenni i'r dogfennau hyn
- Mae gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud â delweddu anfeddygol yn adlewyrchu dosbarthiad RhYI(CM) cywir yr achosion hyn o gysylltiad ag ymbelydredd yn ogystal â'r wybodaeth ofynnol fel y manylir yng nghorff yr adroddiad. Ni ddylid cynnwys cyfeiriad at dreialon clinigol neu achosion post-mortem o gysylltiad ag ymbelydredd yng ngweithdrefn y cyflogwr ar gyfer delweddu anfeddygol

¹⁵ Pelydr-X ffilm blaen yw'r dull radiolegol diagnostig mwyaf cyffredin a ddefnyddir mewn ysbytai. Mae delweddu ffilm blaen yn defnyddio pelydrau-X i gynhyrchu delwedd o'r esgyrn, yr ysgyfaint neu'r dannedd i gynorthwyo gyda diagnosis. Mae'r wybodaeth a gynhyrchir yn cael ei chadw fel ffotograff, y gall radiolegydd neu radiograffydd sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig adrodd arno wedyn.

- Mae gweithdrefn y cyflogwr yn adlewyrchu sut y gellir adnabod y sawl sy'n gyfrifol am y broses adnabod, a sefyllfaoedd pan fo mwy nag un gweithredwr yn cymryd rhan mewn archwiliad
- Mae gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas ag atgyfeiriadau a chanllawiau atgyfeirio i unigolion eu dilyn

Dyletswyddau ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi'r gwhanol rolau a mathau o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag atgyfeirio a chyflawni archwiliadau radioleg i gleifion. Nododd gweithdrefnau'r cyflogwr ar sut y gweithredwyd RhYŷ(CM) 2017 o fewn yr adran, yn ôl grŵp staff, a oedd â hawl i fod yn ymarferwyr,¹⁶ atgyfeirwyr¹⁷ a gweithredwyr¹⁸ (a elwir yn ddeiliaid dyletswydd).

Fe wnaeth Polisi Rheoli Risg Ymbelydredd Ïoneiddio'r bwrdd iechyd ymrwmo i sicrhau bod yr holl reolwyr a staff yn ymwybodol o'u rolau wrth ddefnyddio ymbelydredd Ïoneiddio yn ddiogel. Hysbyswyd pob cyfarwyddwr bwrdd clinigol o'r gofyniad i atgyfeirwyr fod â hawl a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â hawl deiliad dyletswydd.

Dirprwyodd y bwrdd iechyd, fel y cyflogwr, y dasg o roi hawl i ddeiliaid dyletswydd i ddeiliaid swyddi rheoli proffesiynol sy'n gyfarwydd ac yn brofiadol yn y maes ymarfer. Gwelwyd y gadwyn hawliau. Rhoddwyd a chytunwyd ar yr hawl gan y Prif Swyddog Gweithredol i'r sawl sydd â dyletswydd i atgyfeirio trwy lythyr hawl a oedd yn diffinio cwmpas ei hawl. Dirprwyodd y Prif Swyddog Gweithredol y dasg o roi hawl trwy amrywiol lwybrau rhagnodedig a gwelsom dystiolaeth o'r matrices hawliau yn ystod yr arolygiad.

¹⁶ O dan RhYŷ(CM), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion i ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

¹⁷ O dan RhYŷ(CM), mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gymryd cyfrifoldeb am achos unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Cyfiawnhau achosion o gysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol yw prif swyddogaeth yr ymarferydd.

¹⁸ O dan RhYŷ(DM), mae gweithredwr yn unrhyw unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gynnal achos o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u rolau fel deiliad dyletswydd perthnasol a chwmpas yr hawl o dan RhŶI(CM). Cadarnhaodd staff eu bod yn gallu cyrchu fersiynau electronig cyfoes o bolisiau a gweithdrefnau trwy yriant a rennir ar-lein y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o staff yn yr adran fynediad at gyfrifiadur.

Fe wnaeth uwch-staff ddisgrifio system hysbysu staff yr adran am unrhyw newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau yn yr adran. Roedd hyn yn golygu bod aelodau unigol o staff yn cael manylion unrhyw ddogfennau a adolygydd ac a ddiweddarwyd. Yna gofynnwyd i'r staff gadarnhau eu bod wedi adolygu a deall y newidiadau perthnasol, a chafodd cofnod o hyn ei wneud a'i gadw wedi hynny. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ymwybodol o'r system sydd ar waith.

Cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth o'r broses gyfiawnhau. Roedd dogfen a fyddai'n cael ei hystyried fel gweithdrefn cyflogwr ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi dod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Gwnaethom nodi y byddai hon yn elwa o gael ei diweddarau i'w gwneud yn gliriach. Dylai hyn gynnwys yr angen i ymarferydd penodol ddarparu canllawiau awdurdodi ac iddo gadw cyfrifoldeb am bob achos o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd a awdurdodir o dan y canllawiau y mae wedi'u cyhoeddi. Dywedwyd wrthym fod nifer o radiograffwyr a oedd yn awdurdodi atgyfeiriadau tomograffeg gyfrifiadurol o dan ganllawiau awdurdodi. Gwelwyd tystiolaeth o'r canllawiau hyn yn yr adran tomograffeg gyfrifiadurol, ond ni wnaethant nodi ymarferydd penodol. Er bod y radiograffwyr yn gwybod pwy oedd yr unigolyn hwn ac y gallai ei enwi, mae angen i'r canllawiau awdurdodi hyn nodi'n glir yr ymarferydd penodol ar gyfer yr holl atgyfeiriadau hynny a awdurdodwyd gan y radiograffwyr o dan y canllawiau awdurdodi. Dywedodd uwch-staff fod yr ymarferydd awdurdodi wedi'i enwi yn y ddogfen yn y ddogfennaeth tomograffeg gyfrifiadurol, ond nad oedd yr ymarferydd wedi llofnodi'r ddogfen.

Cynhaliwyd trafodaethau gydag uwch-reolwyr yn ymwneud â gofalwyr a chysurwyr. Roedd gweithdrefn ar waith yn ymwneud ag achosion o ofalwyr a chysurwyr yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd. Dywedwyd wrthym y byddai'r ymarferydd ar gyfer cysylltiad y claf ag ymbelydredd hefyd yn gweithredu fel yr ymarferydd ar gyfer cysylltiad y gofalwr a'r cysurwr ag ymbelydredd yn ystod archwiliadau pelydr-X cyffredinol. Wrth gyfiawnhau cysylltiad y gofalwr a'r cysurwr ag ymbelydredd, rhaid i'r ymarferydd hefyd fod yn sicr bod y claf wir

angen cymorth agos gan unigolyn arall er mwyn i'r archwiliad gael ei gynnal yn llwyddiannus. Byddai gweithdrefn y cyflogwr yn elwa o fwy o eglurder a manylder yn ymwneud â gwirio statws beichiogrwydd gofalwyr a chysurwyr, os yw'r gofalwr neu'r cysurwr o dan 18 oed ai peidio, a dylid sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod yr ymarferydd yn llofnodi'r canllawiau awdurdodi. Mae hyn yn ychwanegol at enwi'r un unigolyn a fydd yn ymarferydd ar gyfer yr holl atgyfeiriadau hynny a awdurdodwyd gan y radiograffwyr o dan eu canllawiau.
- Bod gweithdrefn y cyflogwr yn cynnwys mwy o eglurder a manylder yn ymwneud â gwirio statws beichiogrwydd gofalwyr a chysurwyr, os yw'r gofalwr neu'r cysurwr o dan 18 oed ai peidio, a dylid sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi.

Optimeiddio

Roedd gan y cyflogwr drefniadau ar waith i optimeiddio¹⁹ achosion o gleifion yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd. Fe'n hysbyswyd bod optimeiddio wedi'i gwblhau gyda chymorth a chynghor yr arbenigwr ffiseg feddygol.²⁰ Darparwyd adroddiadau blynyddol ar gyfer sicrhau ansawdd cyfarpar gan y goruchwyliwr amddiffyn rhag ymbelydredd a gweithredwyd ar unrhyw gamau. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod bob tri mis gyda'r tîm optimeiddio delweddau²¹ er mwyn trafod prosiectau parhaus ar draws dulliau. Mae'r arbenigwyr ffiseg feddygol yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd gyda'r tîm optimeiddio delweddau, gan gynnig cynghor, cymorth a syniadau gwella

¹⁹ Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses lle mae dosau unigol yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

²⁰ Mae'r cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd yn un o ofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017, sy'n delio â defnydd diogel a chydymffurfiol o bob ffynhonnell ymbelydredd ìoneiddio (ffynonellau ymbelydrol wedi'u selio a heb eu selio, a phob math o ymbelydredd ìoneiddio a gynhyrchir yn drydanol).

²¹ Radiograffydd, radiolegydd a ffisegydd meddygol yn gweithio gyda'i gilydd i gydgrynhoi arbenigedd er mwyn optimeiddio'r holl archwiliadau yn gyson sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio, gan gynnwys sganiau tomograffeg gyfrifiadurol, ar gyfer dos ac ansawdd delweddau.

ar gyfer prosiectau parhaus. Gwnaethom nodi bod yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn cynnal archwiliadau dosau ymbelydredd cleifion. Darparwyd dehongliad o ganfyddiadau'r archwiliadau dosau hyn, a pharatowyd argymhellion i'w hystyried, yn y cyfarfodydd gyda'r tîm optimeiddio delweddu.

Ar gyfer cleifion pediatrig, roedd tystiolaeth o'r trefniadau a'r lleoliadau penodol ar gyfer dod i gysylltiad ag ymbelydredd a oedd yn cael eu defnyddio i roi sicrwydd bod achosion o blant yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd wedi'u hoptimeiddio. Roedd protocolau pediatrig yn seiliedig ar bwysau, a nodwyd gennym fel enghraifft o arfer da.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Disgrifiwyd y broses ar gyfer sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig, ac roedd hon yn cynnwys cydweithredu â thimau optimeiddio delweddu'r Gwasanaeth Amddiffyn rhag Ymbelydredd a'r goruchwylwyr amddiffyn rhag ymbelydredd. Ar gylich tair blynedd, mae'r data ar ddosau a gofnodir yn y Gwasanaeth Amddiffyn rhag Ymbelydredd yn cael ei dynnu a'i ddefnyddio i osod lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer yr archwiliadau delweddu mwyaf cyffredin. Ailadroddwyd y broses hon hefyd pan osodwyd cyfarpar newydd ar ôl cwblhau nifer penodol o archwiliadau neu gyfnod penodol o amser.

Gwelsom dystiolaeth o siartiau lefelau cyfeirio diagnostig yn ystafelloedd pelydr-X yr adran achosion bryn a welsom, ac yn ystafell reoli'r sganiwr tomograffeg gyfrifiadurol. Roedd rhestrau o lefelau cyfeirio diagnostig lleol a chenedlaethol ac esboniodd staff sut a phryd y defnyddiwyd pob un o'r gwerthoedd hyn.

Roedd yn ofynnol i staff gymharu dosau â'r lefelau cyfeirio diagnostig a ddarparwyd, a dogfennu'r archwiliadau hynny a oedd yn uwch na'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gleifion o faint cyfartalog. Dywedwyd wrthym fod y cofnodion hyn yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan y Gwasanaeth Amddiffyn rhag Ymbelydredd ac yr adroddir am unrhyw anomaleddau i radiograffydd arweiniol y safle, ac yna i'r arbenigwr ffiseg feddygol pan fo hynny'n briodol.

Gwnaethom arsylwi bod gwybodaeth ac arweiniad ar reoli lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu cynnwys ar draws sawl dogfen ar hyn o bryd. Er mwyn osgoi dyblygu a'i gwneud hi'n haws i staff eu darllen a'u dilyn, dylid cydgrynhoi'r rhain yn un weithdrefn cyflogwr.

Lefelau cyfeirio diagnostig pediatrig

Cynhaliwyd delweddu diagnostig cleifion pediatrig mewn ardal arbenigol yn Ysbyty Plant Cymru, a gafodd ei chynnwys fel rhan o'r arolygiad delweddu diagnostig. Esboniodd uwch-staff fod lefelau cyfeirio diagnostig Ewropeaidd yn

cael eu defnyddio yn yr ysbyty plant os nad oedd lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gael ar gyfer archwiliad penodol. Yn yr ardal hon, rhestrwyd y lefelau cyfeirio diagnostig Ewropeaidd ochr yn ochr â'r lefelau cyfeirio diagnostig lleol gan eu bod yn seiliedig ar bwysau cleifion.

Gwnaethom hefyd sylwi bod ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi wrth gynllunio ardal delweddu pediatrig Ysbyty Plant Cymru, i'w gwneud yn gyfeillgar i blant.

Gwerthuso clinigol

Roedd gweithdrefn ar waith a oedd yn disgrifio'r broses o ran gwerthuso clinigol. Roedd y datganiad o fwriad yn nodi bod rhaid i bob achos o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol gael canlyniad wedi'i werthuso a fyddai ar gael i'r atgyfeiriwr ac unrhyw staff eraill sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn hwnnw.

Roedd y ffurflen hunanasesu yn nodi bod radiolegydd, cofrestrydd radioleg neu radiograffwyr wedi'u hyfforddi'n briodol yn cynnal gwerthusiad clinigol fel arfer, ac y byddent yn gweithio o fewn cwrpas ymarfer diffiniedig ac â hawl fel gweithredwr ar gyfer y dasg hon. Mae angen diweddarau gweithdrefn y cyflogwr i gynnwys mwy o fanylion ac eglurder ar y materion a ganlyn:

- Pwy sy'n darparu'r gwerthusiad clinigol
- Lle mae'r gwerthusiad yn cael ei gofnodi
- Beth sy'n digwydd pan fydd y gwerthusiad yn digwydd y tu allan i radioleg (ar gyfer pob lleoliad lle gallai hyn ddigwydd)
- Sut y darperir hyfforddiant i staff sy'n cynnal gwerthusiadau clinigol
- Sut y nodir y gweithredwr sy'n cyflawni'r dasg werthuso a sut y rhoddir hawl iddo
- Y broses ar gyfer canfyddiadau annisgwyl

Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd i nodi unrhyw archwiliadau nas adroddwyd ac roedd uwch-reolwyr ym mhob dull yn sicrhau bod yr archwiliadau hyn yn cael eu hadrodd mewn modd amserol.

Gwnaethom gynnal adolygiad ôl-weithredol o'r ddogfennaeth atgyfeirio cleifion, a gynhaliwyd yn yr adran. Gwnaethom nodi bod tystiolaeth yn nodi bod gwerthusiad radioleg ffurfiol wedi'i gynnal ar y ddogfennaeth a welwyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Dim ond un weithdrefn cyflogwr sydd ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig. Dylai pob cyfeiriad at lefelau cyfeirio diagnostig mewn dogfennau eraill gyfeirio at y ddogfen hon er mwyn osgoi dyblygu.
- Dylid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr i gynnwys mwy o fanylion ynghylch pwy sy'n darparu'r gwerthusiad clinigol. Dylai hyn gynnwys y meysydd a ddisgrifir ym mhrif gorff yr adroddiad, megis lle mae'r gwerthusiad yn cael ei gofnodi a beth sy'n digwydd pan fydd y gwerthusiad yn digwydd y tu allan i radioleg ar gyfer pob maes lle mae hyn yn digwydd.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr stocrestr o'r cyfarpar a ddefnyddiwyd yn yr adran radioleg. Roedd y stocrestr yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan RhYĪ(CM) 2017. Fodd bynnag, o'n hymholiadau, dywedwyd wrthym fod braich siâp C fach²² mewn orthopedeg nad oedd wedi'i hychwanegu at y stocrestr eto. Dywedwyd wrthym fod y cyfarpar hwn yn cael ei hurio ar fyr rybudd, a dim ond ychydig ddyddiau cyn yr arolygiad y cyrhaeddodd y safle.

Roedd gweithdrefn cyflogwr ar waith mewn perthynas â sicrhau ansawdd cyfarpar.

Yn dilyn ein hadolygiad o weithdrefn y cyflogwr ar gyfer sicrhau ansawdd cyfarpar, amlygwyd y byddai'r ddogfen yn elwa o gael ei hadolygu a'i diweddarau ymhellach. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth briodol, y cafodd peth ohoni ei chynnwys yn y ffurflen hunanasesu, ac ystyried cynnwys y manylion a ddisgrifir yn y canllaw RhYĪ(CM).

²² Peiriant pelydr-X yw braich siâp C fach sy'n sganio ardal benodol o'r corff, rhan uchaf y corff fel arfer, wrth ganiatáu i glinigwyr weld y canlyniadau mewn amser real, yn fyw ar sgrin y monitor yn ystod llawdriniaeth.

Dywedwyd wrthym hefyd fod rhaglen sicrhau ansawdd gadarn yn cael ei chynnal yn fisol gan radiograffwyr, wedi'i chefnogi gan brofion Lefel B blynyddol ar yr holl gyfarpar gan y Gwasanaeth Amddiffyn rhag Ymbelydredd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Diweddarir gweithdrefn y cyflogwr i gynnwys gwybodaeth briodol, y cafodd peth ohoni ei chynnwys yn y ffurflen hunanasesu, ac yn ystyried cynnwys y manylion a ddisgrifir yn y canllaw RhYĪ(CM).
- Mae'r stocrestr o gyfarpar yn gyfredol ac yn cynnwys y fraich siâp C fach y cyfeiriwyd ati uchod ac unrhyw gyfarpar arall sy'n cael ei ddefnyddio ac sydd heb ei restru.

Gofal diogel

Dywedodd yr holl ymatebwyr i'r holiadur staff fod gan eu sefydliad bob amser, neu fel arfer, y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol, a'i fod yn ymateb yn gyflym pan fydd diffygion. Hefyd, dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod bob amser, neu fel arfer, yn fodlon ag ymdrechion eu sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel.

Cytunodd yr holl staff bron a lenwodd yr holiadur mai gofal cleifion neu ddefnyddwyr y gwasanaeth oedd prif flaenoriaeth y sefydliad, gyda dim ond un yn anghytuno â hyn. Dywedodd yr holl ymatebwyr a fynegodd eu barn fod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godwyd gan gleifion neu ddefnyddwyr gwasanaethau. Dywedodd yr holl staff a fynegodd eu barn, oni bai am un, y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio. Cytunodd 96% o'r staff y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan eu sefydliad ar gyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Nododd y rhai y gwnaethom siarad â nhw fod mynediad gwastad ym mhob rhan o'r adran, gyda drysau llydan i ganiatáu mynediad i gleifion â phroblemau symudedd. Roedd arwyddion clir i'r adran ar y prif goridor. Roedd yr adran wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac roedd yr ardaloedd a welwyd yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Gwnaethom nodi hefyd bod yr ystafell â'r sganiwr tomograffeg gyfrifiadurol a welwyd yn lân gyda digon o olau. Roedd nifer priodol o gadeiriau i'r cleifion a ymwelodd â'r adran eu defnyddio yn ystod yr amser y gwnaed ein harsylwadau.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr. Er enghraifft, roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith i atal pobl anawdurdodedig rhag dod i mewn i ardaloedd lle'r oedd cyfarpar radioleg yn cael ei ddefnyddio.

Cytunodd y mwyafrif o staff a lenwodd yr holiadur fod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd ar unrhyw wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu unrhyw ddigwyddiadau eraill. Cytunodd pob un ymatebwr, oni bai am dri, y byddai'r sefydliad yn trin adroddiadau am wall, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd, neu ddigwyddiad arall yn gyfrinachol. Cytunodd y mwyafrif helaeth na fyddai'r sefydliad yn beio nac yn cosbi'r bobl a oedd yn gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath.

Atal a rheoli heintiau

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau gennym yn yr holiadur staff yn ymwneud â chydymffurfedd COVID-19, ac roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Cytunodd 93% o'r ymatebwyr fod eu sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau amgylcheddol angenrheidiol
- Cytunodd 95% fod eu sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau ymarfer angenrheidiol
- Cytunodd 85% y bu cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol
- Cytunodd 95% fod trefniadau dihalogi ar gyfer cyfarpar ac ardaloedd perthnasol

Dywedodd mwyafrif y staff a lenwodd yr holiadur, a'r holl staff y gwnaethom siarad â nhw, fod ganddyn nhw ddeunyddiau digonol bob amser, neu fel arfer. Roedd hyn yn cynnwys cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith a'u galluogi i ddilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod ymarferydd cyswllt atal a rheoli heintiau ym mhob dull, a bod archwiliadau'n cael eu cynnal ar weithdrefnau hylendid dwylo, noeth o dan y penelin, a glanhau. Hefyd, roedd tîm atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd yn ymweld i weld yr adran ac i ddarparu cymorth yn ôl yr angen. Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol yn yr holiadur:

“Ar adegau, bu problemau gyda chyflenwadau o fasgiau FFP3, gan fod y modelau wedi newid yn aml ar ddechrau'r pandemig, ac felly ar brydiau nid oedd pob math o fasp ar gael i ffitio pawb.”

Dywedodd uwch-staff fod masgiau maint amgen yn cael eu cyrchu lle bo hynny'n bosibl, ac os nad oedd y masg FFP3 gofynnol ar gael, ni fyddai'r staff yn mynd i

mewn i ardaloedd lle cynhelir gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau. Fe wnaethant nodi bod meintiau ar gyfer yr holl staff yn cael eu hystyried, gan gynnwys prynu cyflau anadlol unigol pan nad oedd masgiau'n ffitio'n briodol. Dywedwyd wrthym fod yr holl gyfarpar diogelu personol wedi'i archebu gan y tîm nyrsio, a sicrhodd fod stoc ddigonol yn cael ei chadw. Dywedodd staff wrthym fod llawer o hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar wisgo a thynnu²³ cyfarpar diogelu personol, a bod yr hyfforddiant hwn hefyd yn cael ei ddarparu i staff newydd, yn ogystal â defnyddio posteri yn yr ystafell glinigol.

Roedd y sampl o gofnodion hyfforddiant staff a adolygwyd yn dangos bod yr holl staff yn gyfarwydd â'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau diweddaraf ar adeg ein harolygiad.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod rhaid iddynt wisgo cyfarpar diogelu personol llawn ar gyfer pob triniaeth wyneb yn wyneb â chleifion (hynny yw, masgiau, menig, ffedog a feisor). Yn ogystal â hyn, roedd pob claf yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn. Nid oedd mwyafrif y cleifion a welwyd â COVID-19 ac, yn dilyn y driniaeth, glanhawyd yr ardal â chlytiau diheintio. Os gwelwyd claf â chanlyniad positif o COVID-19, yna defnyddiwyd technegau ychwanegol i lanhau'r ardal yn drylwyr.

Pan aeth y tîm arolygu ar daith o amgylch yr adran, roedd yn ymddangos bod pob ardal yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael yn yr ystafelloedd archwilio yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r arolygiad. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael mewn ystafelloedd aros a gwelwyd cyfarpar diogelu personol mewn ystafelloedd archwilio yr ymwelwyd â hwy.

Roedd sgriniau plastig clir wedi'u gosod ar ddesgiau'r dderbynfa yn y rhannau o'r adran yr ymwelwyd â nhw i amddiffyn cleifion a staff. Roedd arwyddion ar y llawr i atgoffa cleifion i gadw pellter cymdeithasol. Yn ardal yr adran, roedd arwyddion hefyd ar y llawr i atgoffa cleifion a staff i gadw i'r chwith wrth gerdded trwy'r adran.

Roedd yr arwyddion a arddangoswyd yn yr adran yn cynnwys yr angen i gleifion wisgo masgiau wyneb a diheintio eu dwylo, ac roedd manylion am bwysigrwydd peidio â mynychu'r uned os oedd ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Yn

²³ Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; tynnu – tynnu cyfarpar diogelu personol.

ogystal â hyn, roedd arwydd yn nodi mai dim ond cleifion oedd yn cael mynd heibio'r dderbynfa, oni bai fod angen gofalwr ar y claf neu rywun i'w hebrwng.

Dywedodd yr holl gleifion a lenwodd yr holiadur fod y lleoliad yn lân a dywedodd bron pob claf fod tystiolaeth o weithdrefnau cwyno COVID-19 yn ystod eu hymweliad.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y camau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu. Fe'n hysbyswyd bod arweiniad a chymorth diogelu ar gael ar dudalen fewnrwyd y bwrdd iechyd. Fe'n hysbyswyd hefyd bod gofyn i'r holl staff gwblhau hyfforddiant ar-lein gorfodol. Roedd y sampl o gofnodion hyfforddiant staff a adolygwyd yn dangos bod yr holl staff yn gyfarwydd â'r hyfforddiant diogelu diweddaraf ar adeg ein harolygiad.

Gofal effeithiol

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Archwiliadau clinigol

Darparwyd gwybodaeth i ddangos cydymffurfedd â RhYĪ(DM) 2017 mewn perthynas ag archwiliadau RhYĪ(DM). Darparwyd tystiolaeth o'r archwiliadau a gwblhawyd eisoes eleni, yn ogystal â'r archwiliadau a drefnwyd ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Roedd gweithdrefn ar waith mewn perthynas ag archwiliadau clinigol. Darparwyd tystiolaeth ar dri archwiliad a oedd yn enghreifftiau o bynciau da i'w harchwilio ac o'r newidiadau mewn ymarfer a wnaed yn dilyn y canlyniadau. Disgrifiodd staff hefyd sut y bwriadwyd ailarchwilio'r newidiadau hynny. Yn ogystal â hyn, fe wnaethant ddisgrifio sut roedd cyfarfodydd archwilio bellach yn cael eu cynnal trwy gyfarfodydd ar-lein, a olygai y gallai mwy o staff fod yn rhan o'r broses. Ystyriwyd hyn fel enghraifft o ddiwylliant cryf ar gyfer archwilio clinigol. Gwnaethom nodi hefyd bod diwylliant o archwilio ar draws radioleg yn y bwrdd iechyd. O'r dystiolaeth a welwyd, roedd hyn yn amlddisgyblaethol, gyda'r holl grwpiau staff yn cymryd rhan.

Cyngor arbenigol

Cyflogwyd tri arbenigwr ffiseg feddygol o dan gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Amddiffyn rhag Ymbelydredd yng Nghaerdydd. Roedd yr adran wedi gwirio bod yr arbenigwyr ffiseg feddygol wedi'u rhestru ar y rhestr

gymeradwy ar gyfer cynghorwyr amddiffyn rhag ymbelydredd (RPA 2000), y corff ardystio ar gyfer arbenigwyr ffiseg feddygol.

Fel y nodwyd uchod, dywedwyd wrthym fod yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd gyda'r tîm optimeiddio delweddau, gan gynnig cyngor, cymorth a syniadau gwella i brosiectau parhaus. Disgrifiwyd rôl a chylch gwaith y tîm optimeiddio delweddau gan uwch-staff; roedd y tîm wedi'i ffurfio ac yn cyfarfod yn rheolaidd am nifer o flynyddoedd. Mynychodd yr arbenigwyr ffiseg feddygol y cyfarfodydd amlddisgyblaethol hyn, a oedd â staff o'r holl ddulliau diagnostig yn bresennol. Roedd yn werth nodi bod y tîm optimeiddio hwn ar waith ac yn gweithredu.

Cwblhawyd yr adrannau ar arbenigwyr ffiseg feddygol a sicrhau ansawdd cyfarpar yn y ffurflen hunanasesu yn gynhwysfawr, gydag atebion clir i'r cwestiynau a ofynnwyd. Adolygwyd dogfennaeth a ddarparwyd i'r tîm arolygu cyn arolygu ar y meysydd hyn ac roeddent yn gyfredol, yn glir ac yn ddiamwys. Roedd cytundeb lefel gwasanaeth y Gwasanaeth Amddiffyn rhag Ymbelydredd yn gynhwysfawr ac yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwyliid o'r contract. Roedd sicrhau ansawdd a gyflawnwyd gan radiograffwyr wedi'i ddatblygu gyda'r arbenigwyr ffiseg feddygol, ac roedd y dogfennau a ddarparwyd cyn yr arolygiad, gan gynnwys taenlenni, wedi'u cwblhau'n dda ac yn glir.

Nodwyd tystiolaeth hefyd o gyfathrebu da rhwng yr adran a'r arbenigwyr ffiseg feddygol, a bod yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn amlwg o fewn yr adran hefyd.

Ymchwil feddygol

Nododd y ffurflen hunanasesu a ddarparwyd fod yr adran wedi cymryd rhan mewn ymchwil, a darparwyd dwy weithdrefn debyg yn ymwneud â threialon clinigol. Er bod y broses a eglurwyd yn glir i'w dilyn, dim ond un weithdrefn cyflogwr ddylai fod yn ymwneud â threialon clinigol. Dylai'r weithdrefn cyflogwr hon gynnwys y wybodaeth o'r ffurflen hunanasesu a ddarparwyd, a gafodd ei hegluro a'i hysgrifennu'n glir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau mai dim ond un weithdrefn cyflogwr sy'n ymwneud â threialon clinigol a'i bod yn cael ei diweddarau i gynnwys y manylion a ddarperir yn y ffurflen hunanasesu.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion gofal cleifion. Roedd yr holl gofnodion a welsom wedi'u cwblhau gyda manylion priodol gan y staff hynny a oedd yn ymwneud â'r cysylltiad ag ymbelydredd. Roedd hyn yn cynnwys cofnodi manylion yr ymarferydd perthnasol â hawl i ddangos bod cyfiawnhad dros achosion o gysylltiad ag ymbelydredd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd yr adran yn cael ei rheoli'n dda a nododd sylwadau gan staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth gan uwch-staff yn yr adran. Roedd yn amlwg o'n harolygiad bod perthynas dda rhwng staff yr adran ac uwch-reolwyr.

Roedd staff yn gallu disgrifio'r broses i adrodd ar unrhyw achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd yn dda.

Yn gyffredinol, roedd sylwadau staff yn gadarnhaol.

Fodd bynnag, roeddem yn bryderus i ddarganfod bod sawl aelod o staff, a gwblhaodd ein harolwg, wedi dweud eu bod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Hefyd, dywedodd sawl aelod o staff nad oedd mynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle.

Gellid gwella canran y staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol a nifer y staff a oedd wedi derbyn arfarniad blynyddol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwnaethom siarad â thri aelod o staff a thri uwch-reolwr am eitemau'n ymwneud â safonau iechyd a gofal. Cadarnhaodd uwch-reolwyr eu bod yn gweithio gyda staff, ac yn eu cynnwys nhw, ar bob cyfle. Fel rheol, rhannwyd gwybodaeth rhwng y rheolwyr a'r staff trwy amrywiol dulliau, gan gynnwys e-byst, grwpiau rhwydweithio cymdeithasol, cylchlythyrau a hysbysfyrddau staff. Roedd yn ofynnol i staff gadarnhau eu bod wedi darllen a chytuno ar weithdrefnau ysgrifenedig cyfoes sy'n berthnasol i'w hymarfer trwy lofnod. Cadarnhawyd ymwybyddiaeth staff o'r gweithdrefnau cyfredol hefyd fel rhan o'r arfarniadau ar

sail gwerthoedd²⁴ a'r broses sefydlu. Dywedodd y rheolwyr eu bod yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â gweithdrefnau trwy archwiliadau rheolaidd ac arsylwadau o ymarfer.

Dywedodd uwch-staff yn yr adran y gwnaethom siarad â nhw fod proses arfarnu ar sail gwerthoedd yn yr adran, ond oherwydd COVID-19 bu oedi. Dywedwyd wrthym fod staff wedi'u neilltuo i gwblhau'r arfarniadau ac i fonitro staff, a'u bod yn credu bod yr holl staff wedi derbyn arfarniad yn ystod y 15 mis diwethaf. Gofynnwyd i staff yn yr holiadur am eu hadolygiad neu arfarniad blynyddol; dim ond dwy ran o dair o'r staff a ddywedodd eu bod wedi derbyn arfarniad o fewn y 12 mis diwethaf. O'r staff hynny a oedd wedi derbyn adolygiad neu arfarniad blynyddol, dywedodd 73% ei fod yn nodi eu hanghenion dysgu a dywedodd 84% fod eu rheolwr yn eu cefnogi i dderbyn hyfforddiant ac i ddatblygu.

Dywedodd uwch-staff fod y niferoedd isel o arfarniadau ar sail gwerthoedd yn berthnasol i un grŵp o staff, a bod gweithdrefnau rheoli newydd ar waith bellach a fyddai'n mynd i'r afael â hyn.

Dywedodd staff nad oedd uwch-reolwyr (o'r tu allan i'r adran) mor weladwy ag y gallent fod yn yr adran. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod staff yn cael eu hannog i ddatblygu eu meysydd ymarfer ac roedd y Prif Swyddog Gweithredol yn anfon bwletinâu rheolaidd. Dywedodd staff eu bod yn ymwybodol o adolygiadau a diwygiadau o'r gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig sydd ar waith trwy e-byst a hysbysfyrddau a thrwy'r system rheoli ansawdd o'r enw Q-Pulse. Defnyddiwyd y weithred o agor y neges e-bost hefyd fel prawf o'i darllen.

Dychwelwyd y ffurflen hunanasesu i AGIC o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Er i ni dynnu sylw at nifer o anghysondebau yn yr ymatebion a ddarparwyd, yn y mwyafrif o feysydd a amlygwyd, roedd staff yn gallu darparu'r wybodaeth ychwanegol neu'r eglurhad yn brydlon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod arfarniadau ar sail gwerthoedd yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl staff yn

²⁴ Ymgwymerwyd â'r rhain i sicrhau bod datblygiad staff yn cael ei wella ac i greu cyfleoedd mewn perthynas â datblygiad proffesiynol, arweinyddiaeth a sgiliau clinigol.

brydlon, a bod y cydymffurfedd hwn yn cael ei gynnal i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion i gyflawni eu dyletswyddau a chynnal eu datblygiad.

Dyletswyddau'r cyflogwr

Hawl

Roedd y system a ddisgrifiwyd gan staff ar gyfer hawl, a'r manylion a ddarperir yn y ffurflen hunanasesu, yn glir. Fodd bynnag, fel y disgrifiwyd yn flaenorol, nid oedd hyn yn adlewyrchu'r hyn a ysgrifennwyd yng ngweithdrefnau'r cyflogwr. Roedd hyn yn cynnwys dirprwyo'r dasg a'r broses i unigolion a enwir neu grwpiau o unigolion gael yr hawl i weithredu fel atgyfeirwyr. Gwelwyd tystiolaeth hefyd o hyn ar y matrices hawliau.

Dewiswyd pum cofnod staff ar hap o'r matrices hawliau a darparwyd eu cofnodion hyfforddi i'r tîm arolygu eu hadolygu. Roedd pob un yn ymddangos yn gyfredol ac roedd yr asesydd a'r hyfforddai wedi llofnodi'r cymwyseddau ac roedd dyddiad ar bob un. Yn ogystal â hyn, gwelwyd y matrices sy'n dangos y ddogfennaeth hawliau lleol ar gyfer llawfeddygon orthopedig sy'n defnyddio braich siâp C fach, ac roedd y manylder yn dda.

Disgrifiwyd y broses hawliau mewn gwahanol leoedd yn y ddogfennaeth ac, fel y disgrifir uchod, mae angen eglurder a thystiolaeth o gwmpas y maes hwn. Mae angen un weithdrefn cyflogwr sy'n cynnwys yr holl fanylion ynghylch hawliau, dirprwyo, gofynion hyfforddi, a'r broses ar gyfer cael hawliau.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad fod ganddynt fynediad at fersiynau cyfoes o'r polisïau a'r gweithdrefnau. Hefyd, cadarnhaodd uwch-staff, pan fydd unrhyw newidiadau i ddogfennau'n digwydd, fod hysbysiadau'n cael eu cylchredeg i staff yr adran, y gofynnwyd iddynt wedi hynny gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y newidiadau perthnasol.

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer rhaglenni sicrhau ansawdd yn ymwneud â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig, ac eglurwyd hyn hefyd yn y ffurflen hunanasesu. Mae angen diweddarau gweithdrefn y cyflogwr a adolygwyd gennym i gynnwys sylwadau rheolwyr yn y ffurflen hunanasesu, megis defnyddio templed safonol, rheoli fersiynau, a chloi dogfennau fel na ellir eu newid o bell.

Fel yr amlygwyd yn flaenorol, yn dilyn adolygiad o weithdrefnau RhŶİ(CM) gofynnol y cyflogwr sydd ar waith, gwnaethom dynnu sylw at y rhai a oedd heb y lefel ofynnol o fanylder ac eglurder i staff eu dilyn. Yn ystod trafodaethau â staff, cawsom sicrwydd ynghylch yr arfer sy'n cael ei gynnal. Fodd bynnag, ar sawl

achlysur nid oedd yr arfer a ddisgrifiwyd yn adlewyrchu'r manylion a gynhwysir yng ngweithdrefn ysgrifenedig gysylltiedig y cyflogwr. Er bod y ffurflen hunanasesu a thrafodaethau staff yn darparu lefel dda o fanylion am y broses hawliau, roedd angen ailadrodd hyn yng ngweithdrefn gyfatebol y cyflogwr.

Achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd

Roedd gan y cyflogwr ddwy ddogfen, un yn ymwneud ag Ymchwilio ac Adrodd ar Achosion Damweiniol neu Anfwriadol o Gysylltiad Sylweddol ag Ymbelydredd / Achosion Damweiniol neu Anfwriadol o Gysylltiad ag Ymbelydredd sydd Arwyddocaol yn Glinigol. Y ddogfen arall oedd Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Rheoli Digwyddiadau mewn Radioleg, yn ei chyfanrwydd, nid digwyddiadau RhYŷ(CM) yn unig. Roedd angen diweddarau'r ddwy ddogfen a ddarparwyd fel gweithdrefnau RhYŷ(CM) y cyflogwr a chynnwys gwybodaeth ynddynt. Roedd staff yn gallu disgrifio'r broses i'r arolygwyr ond nid oedd y ddogfennaeth yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol na'r hyn sy'n ofynnol yng ngweithdrefn y cyflogwr.

Dywedwyd wrthym fod pob digwyddiad wedi'i gofnodi ar Datix, y system digwyddiadau electronig yn y bwrdd iechyd. Byddai adroddiad dadansoddi llawn o wraidd y broblem yn cael ei gwblhau ar gyfer pob digwyddiad y dylid adrodd amdano. Yn ogystal â hyn, ymchwiliwyd i'r rhai yr ystyriwyd eu bod yn rhai nad oedd rhaid adrodd arnynt, a'r rhai y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Byddai unrhyw gamau gofynnol yn cael eu gweithredu i leihau'r risg y byddent yn cael eu hailadrodd. Hefyd, yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, roedd yr adran wedi datblygu templed newydd fel bod yr holl ddigwyddiadau nad oedd rhaid adrodd arnynt a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu bwydo yn ôl i'r staff ac yn cael eu hadrodd trwy'r cyfarfodydd diogelwch ac ansawdd. Er mwyn sicrhau dull cyson, defnyddiwyd tacsonomeg codio.²⁵ Roedd y gronfa ddata a ddangoswyd i'r tîm arolygu yn ffordd glir o reoli'r gwaith codio a dadansoddi. Disgrifiodd uwch-staff hefyd eu bod yn rhannu rhai digwyddiadau ar draws grŵp radioleg Cymru gyfan i sicrhau ansawdd ac i sicrhau eu bod i gyd yn codio yr un ffordd ar gyfer cysondeb.

Cafodd y broses ar gyfer cofnodi a dadansoddi achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd, gan gynnwys digwyddiadau y

²⁵ Yr astudiaeth o egwyddorion cyffredinol dosbarthu gwyddonol.

bu ond y dim iddynt ddigwydd, ei disgrifio'n dda yn y ffurflen hunanasesu. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfennaeth gysylltiedig yn adlewyrchu'r manylder yn y ffurflen hunanasesu na'r prosesau a ddisgrifiwyd gan y staff i'r arolygwyr.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer adrodd ac ymchwilio i achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad ag ymbelydredd a digwyddiadau eraill. Dywedodd y rheolwyr y gwnaethom siarad â nhw y byddai dadansoddiad o wraidd y broblem neu ymchwiliad lleol i unrhyw ddigwyddiad. Defnyddiwyd y dechneg Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad i ddysgu o ddigwyddiadau, a gwnaed staff yn ymwybodol bod yr ymchwiliadau'n agored ac yn dryloyw. Dywedwyd wrthym fod staff yn derbyn hyfforddiant asesu risg a bod rhybuddion diogelwch yn cael eu rhannu â staff trwy e-bost, gan gynnwys y camau sy'n ofynnol. Mae cofnod o'r holl rybuddion diogelwch a dderbyniwyd a rhestr o'r camau a gymerwyd ar y gyriant a rennir.

Dywedodd 11 aelod o staff a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi gweld digwyddiad damweiniol neu anfwriadol mewn perthynas â chysylltiad ag ymbelydredd a oedd yn effeithio ar staff yn ystod y mis diwethaf. Dywedodd wyth aelod o staff eu bod wedi gweld digwyddiad damweiniol neu anfwriadol mewn perthynas â chysylltiad ag ymbelydredd a oedd yn effeithio ar gleifion yn ystod y mis diwethaf. Dywedodd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr eu bod wedi gweld gwallau yn ymwneud â diogelwch cleifion, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn ystod y mis diwethaf. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y tro diwethaf iddynt weld gwall, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd, neu ddigwyddiad arall, yr adroddwyd arno.

Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr fod staff sy'n ymwneud â gwall, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd, neu ddigwyddiad arall yn cael eu trin yn deg, a'u bod yn cael eu hysbysu o wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a digwyddiadau eraill yn y sefydliad. Cytunwyd hefyd eu bod wedi cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a digwyddiadau eraill yr adroddwyd amdanynt.

Dywedodd yr holl staff a ymatebodd, pe baent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i adrodd arno, a dywedodd y mwyafrif y byddent yn teimlo'n fodlon wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel. Unwaith eto, dywedodd y mwyafrif eu bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon. Dim ond un aelod o staff a ddywedodd nad oedd gan weithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n delio'n uniongyrchol â chleifion ddigon o rym i godi llais a gweithredu pe byddent yn nodi problemau, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain. Unwaith eto, nododd un aelod o staff nad oedd diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu o fewn y sefydliad a oedd yn cefnogi staff i nodi a datrys problemau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Cymerir camau i leihau'n sylweddol nifer yr achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn ddamweiniol neu'n anfwriadol ar gyfer staff a chleifion
- Esbonnir y broses hawliau yn glir mewn un weithdrefn cyflogwr sy'n cynnwys yr holl fanylion ynghylch hawliau, dirprwyo, gofynion hyfforddi a'r broses hawliau
- Mae gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rhaglenni sicrhau ansawdd sy'n ymwneud â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig yn cael ei hadolygu a'i dyddio i gynnwys sylwadau rheolwyr yn y ffurflen hunanasesu. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio templed safonol, rheoli fersiynau, a chloi dogfennau fel na ellir eu newid o bell
- Mae'r prosesau ar gyfer rheoli digwyddiadau ac ymchwilio i ddigwyddiadau ac adrodd arnynt, a ddarperir fel gweithdrefnau RhYŷ(CM) y cyflogwr, yn cael eu diweddarau ac mae'r wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Roeddem yn bryderus i ddeall bod naw aelod o staff a gwblhaodd ein harolwg wedi dweud eu bod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Yn ogystal â hyn, roedd naw aelod o staff yn anghytuno â'r sylw bod gan staff fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle (heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol.

Cawsom sylwadau yn ymwneud â mynediad cyfartal i gyfleoedd yn y gweithle, a oedd yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi clywed am gydweithwyr benywaidd (nad ydynt yn rhan o'r tîm rwy'n gweithio iddo) yn cael gwybod yn anuniongyrchol eu bod yn anaddas i ymgeisio am rai swyddi uwch oherwydd y byddent

yn dymuno mynd ar gyfnod mamolaeth a'u bod eisiau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith (gweithio'n rhan-amser) neu eisoes yn gweithio'n rhan-amser. Mae'n ymddangos bod nyrsys gwrywaidd, er eu bod yn llawer llai o ran niferoedd, yn fwy tebygol o fod mewn rolau uwch ar draws y bwrdd iechyd prifysgol."

"Mae pobl yn cael eu paratoi ar gyfer y dyrchafiad nesaf cyn iddo gael ei gyhoeddi, ac nid yw'n deg ar eraill sydd eisiau'r swydd. Dylai fod yn seiliedig ar gyfweiliad yn unig. Dylai fod rhywun annibynnol ar baneli cyfweld y GIG i atal hyn."

Fel y manylwyd yn flaenorol, fel rhan o'n harolygiad, roedd arolwg staff ar gael i roi cyfle i'r holl staff sy'n gweithio yn yr adran roi eu barn. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd trafodaethau gydag uwch-reolwyr y gwasanaeth, ynghyd â detholiad o staff sy'n gweithio yn yr adran. Siaradodd tri aelod o staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw yn glir ac yn dda. Roedd ganddyn nhw ddealltwriaeth dda o'r lefelau cyfeirio diagnostig, ac o ofalwyr a chysurwyr, ac roedd ganddyn nhw ddealltwriaeth glir o'u rolau. Fe wnaethant hefyd ddisgrifio dull cyson a ddefnyddiwyd ar gyfer buddion a risgiau, er enghraifft.

Dyweddodd bron pob ymatebydd fod eu rheolwr uniongyrchol yn annog y rhai a oedd yn gweithio iddynt i weithio fel tîm. Dywedodd yr holl staff y gellid dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu gyda thasgau anodd yn y gwaith, o leiaf y rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd yr holl staff fod eu rheolwr uniongyrchol yn rhoi adborth clir ar eu gwaith, a'i fod yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu gwaith. Dywedodd mwyafrif y staff fod eu rheolwr uniongyrchol yn gefnogol mewn argyfwng personol. Cawsom sylwadau am reolwyr uniongyrchol a dangosir rhai isod:

"Maen nhw'n gefnogol ac yn ofalgar iawn"

"Rheolaeth wych. Nid wyf wedi cael unrhyw broblemau na phryderon. Cefnogol iawn."

"Roedd fy rheolwyr yn hynod gefnogol mewn cyfnod pan oeddwn i wedi fy anafu ac fe wnaeth fy nghefnogi trwy fy amser i ffwrdd a'm llawdriniaeth, ac wrth sicrhau fy mod yn cael cymorth priodol wrth ddychwelyd i'r gwaith. Mae'n cadw llygad arna i yn rheolaidd, ac rydw i'n gwerthfawrogi hyn yn fawr. Mae'n ystyriol iawn."

Dyweddodd pob un ond un o'r staff eu bod yn gwybod pwy oedd eu uwch-reolwyr, a dywedodd pob un ond am bedwar aelod o staff fod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol. Dywedodd wyth aelod o staff nad yw uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig, a dywedodd pump aelod

o staff nad oeddent erioed yn gweithredu ar adborth staff. Fodd bynnag, dywedodd y mwyafrif fod uwch-reolwyr wedi ymrwymo i ofalu am gleifion. Cawsom sylwadau yn ymwneud ag uwch-reolwyr a dangosir rhai isod:

“Nid oes gan ein huwch-reolwyr unrhyw gyswllt â'r cleifion”

“Rydym yn cael ein hannog i beidio â mynd at [enw'r unigolyn] yn uniongyrchol. Rhaid i wybodaeth fynd trwy [aelod o staff]. Rwy'n aml yn teimlo bod gwybodaeth yn cael ei 'gwanhau' neu nad yw'n cael ei throsglwyddo'n gywir.”

Dywedodd naw aelod o staff fod eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd. Dywedodd bron yr holl staff a fynegodd farn fod eu rheolwr uniongyrchol a'r sefydliad wedi cymryd diddordeb yn eu hiechyd a'u lles ac wedi gweithredu'n gadarnhaol. Fodd bynnag, dywedodd saith aelod o staff nad oedd eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd personol a gwaith.

“Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu galw cynyddol arnaf i wneud gwaith y tu allan i oriau, oherwydd prinder staff yn yr adran a methu recriwtio staff newydd. Mae hyn wedi arwain at gydbwysedd bywyd personol a gwaith gwael oherwydd llawer o ymrwymadau ar alwad yn ystod y nos a dros benwythnosau. Hefyd gall fod yn heriol ymdopi â'r newid cyson rhwng nos a dydd.”

Cytunodd yr holl aelodau o staff a ymatebodd, oni bai am un, eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael. Dywedodd bron pob aelod o staff, pe bai sefyllfaoedd heriol, eu bod yn cael cynnig cymorth llawn. Roedd rhai sylwadau gan staff penodol yn cynnwys y canlynol:

“Rwyf wedi cael trafferth gyda rhywfaint o salwch yn y gorffennol ac mae fy nghydweithwyr bob amser wedi bod yn gwbl gefnogol.”

“Mae gan iechyd galwedigaethol ôl-groniad enfawr, ac fe wnaeth hi gymryd pedwar mis i ddelio â fy atgyfeiriad blaenorol.”

“Mae fy nghydweithwyr sydd wedi cael eu hatgyfeirio at iechyd galwedigaethol yn nodi bod rhestr aros o dri mis.”

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yr ymdriniwyd â phryderon, a bod mynediad digonol at gyfleoedd hyfforddi a datblygu i'w cefnogi yn eu rôl. Roeddent hefyd yn ymwybodol o sut i gael gafael ar unrhyw gymorth ychwanegol pe bai ei angen arnynt, megis iechyd galwedigaethol.

Dywedodd uwch-staff fod amser aros o dri mis ar hyn o bryd ar gyfer atgyfeiriadau rheolwyr ym maes iechyd galwedigaethol, oherwydd cynnydd o

45% yn nifer yr atgyfeiriadau gan reolwyr i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r amseroedd aros ar gyfer hunan-atgyfeirio i ffisiotherapi iechyd galwedigaethol yn llai na phythefnos a'r amser aros ar gyfer hunan-atgyfeirio i lesiant gweithwyr yw rhwng wythnos a phythefnos ar hyn o bryd. Gall staff hefyd gael gafael ar gyngor unigol trwy ffonio'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol yn uniongyrchol, ond ni fydd hyn yn darparu adroddiad i'r rheolwr llinell.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr adran yn adran fawr a bod angen nifer o sgiliau gwahanol i sicrhau bod digon o staff ar ddyletswydd gyda'r gymysgedd perthnasol o sgiliau i gyflawni eu rolau. Fodd bynnag, dywedodd pedwar o'r 39 aelod o staff a lenwodd y cwestiwn hwn ar yr holiadur nad oedd byth ddigon o amser i staff sy'n gweithio yn yr adran wneud eu gwaith yn iawn.

O'r ffigurau a ddarparwyd ar y ffurflen hunanasesu, roedd pob un o'r swyddi gwag yn yr adran wedi'u llenwi, ac roedd disgwyl i'r holl swyddi gwag gael eu llenwi yn ystod y tri mis nesaf. Er bod swyddi gwag ar gyfer radiolegwyr, nododd y ffurflen hunanasesu fod y swyddi hyn wedi'u hysbysebu. Nid oedd swyddi gwag ar gyfer unrhyw swyddi nyrsio.

Cytunodd 88% o staff fod eu gweithle yn gefnogol i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Cawsom sylwadau ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle a chopïr rhai isod:

“Gweithle cynhwysol ac amrywiol iawn, sydd wedi'i adlewyrchu yn ein hadran, sy'n wych ei weld!”

“Un o nodweddion cryfaf radioleg yw ei bod hi'n ardal wych sy'n cefnogi amrywiaeth”

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith sy'n cyflawni'r canlynol:

- Caniatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol
- Sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r amser aros canfyddedig ar gyfer iechyd galwedigaethol.

Hyfforddiant

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw, a'r rhai a atebodd holiadur yr arolwg, fod ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol i'w cefnogi yn eu rôl. Roedd enghreifftiau o'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cwrs gradd Meistr, a defnyddiodd y bwrdd iechyd Agored Cymru²⁶ i roi cyfleoedd i staff ennill cymwysterau mewn meysydd eraill.

Dangosodd adolygiad o'r cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff fod tystiolaeth glir o staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel dau o leiaf. Roedd tystiolaeth glir yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant iechyd a diogelwch, hyfforddiant atal a rheoli heintiau, a hyfforddiant dadebru. Roedd tystiolaeth hefyd yn dangos bod staff wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant eraill a nodwyd gan y sefydliad fel rhai gorfodol, fel codi a chario, a diogelwch tân. Fodd bynnag, dangosodd tri o'r pum cofnod a wiriwyd fod hyfforddiant codi a chario staff wedi dyddio, a dangoswyd hefyd bod hyfforddiant diogelwch tân tri aelod o staff wedi dyddio.

Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant gorfodol yn cael ei adrodd yn fisol i'r bwrdd clinigol a bod nodiadau atgoffa misol yn cael eu hanfon at staff i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol. Roedd y cofnodion hyfforddi a wiriwyd yn glir ac roedd system briodol i nodi pryd yr oedd angen cwblhau hyfforddiant penodol. Roedd cofnod hyfforddiant pob aelod o staff a wiriwyd yn dangos yn fras y dyddiadau dod i ben ar gyfer yr hyfforddiant perthnasol angenrheidiol. Darparwyd ffigurau cydymffurfio ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn yr adran fel canran. Rhestrwyd sawl un â chanrannau cydymffurfio o dan 70% ac roedd un ardal o'r adran â chydymffurfedd o 17% neu is. Fodd bynnag, roedd gan fwyafrif y staff gydymffurfedd o dros 85% â'r hyfforddiant yr oedd ei angen. Yn dilyn hynny, trafodwyd y mater hwn gydag uwch-reolwyr, a roddodd resymau dros y niferoedd isel mewn rhai achosion.

Dywedodd bron yr holl staff a lenwodd yr holiadur eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Dywedodd pawb eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelwch ac ymwybyddiaeth tân, ac mewn diogelu.

²⁶ Agored Cymru yw'r corff dyfarnu Cymreig o ddewis ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Ni ddywedodd yr holl staff a gwblhaodd yr arolwg (pump allan o 57 aelod o staff) eu bod wedi derbyn hyfforddiant RhYŷ(CM) sy'n berthnasol i'w swyddogaethau fel ymarferydd. Yn ogystal â hyn, dywedodd chwe aelod o staff nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf yn unol â RhYŷ(CM) sy'n berthnasol i'w maes ymarfer penodol. Cawsom sawl sylw ar hyfforddiant a fyddai o gymorth i staff, a dangosir rhai ohonynt isod:

“Cymhwyster arbenigol ar gyfer olyniaeth i fand 8a”

“Fel unigolyn anfeddygol, teimlaf y byddai gweld y broses ar gyfer pob math o sgan yr ydym yn ei gyflawni yn ddefnyddiol, gan y gallai ein helpu i ateb ymholiadau cleifion am yr archwiliadau.”

“Gwythien-bigladau a fflebotomi gydag agwedd fwy cyson tuag at ymarfer parhaus”

“Rwyf wedi cwblhau gradd Meistr mewn [pwnc] a ariannwyd ac a gefnogwyd gan yr adran.”

Dywedodd yr holl staff a ymatebodd yn yr holiadur fod hyfforddiant bob amser, neu fel arfer, yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, yn eu cadw'n gyfredol o ran gofynion proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn cynnig profiad gwell ar gyfer cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cydymffurfedd hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff yn cael ei wella a'i gynyddu i ganran uwch na'r 85% sy'n cael ei ystyried yn “wyrdd” ar y dangosfwrdd perfformiad.

-

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â [Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) a'u diwygiad dilynol ([2018](#)).

Llunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ac, ym mhob achos, bod y risg o'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol
- Nid yw cleifion yn cael mwy o gysylltiad ag ymbelydredd nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg gyfredol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)
- Diwallu unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel y bo'n briodol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae gwasanaethau'n derbyn rhybudd o hyd at 12 wythnos o arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un arolygydd AGIC, ac fe'u cefnogir gan uwch-swyddog clinigol o Iechyd Cyhoeddus Lloegr, yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol.

Sicrheir bod adborth ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ìoneiddio.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: Ysbyty Athrofaol Cymru

Ward/adran: Adran Delweddu Diagnostig

Dyddiadau'r arolygiad: 17 a 18 Awst 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Athrofaol Cymru

Ward/adran: Adran Delweddu Diagnostig

Dyddiadau'r arolygiad: 17 a 18 Awst 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefn buddion a risgiau'r cyflogwr yn cael ei diweddarau fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad.	RhYİ(CM) 2017 Atodlen 2 (i)	Mae holl weithdrefnau RhYİ(CM) y cyflogwr yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a chânt eu diweddarau i gynnwys y manylion a bennir yn yr adroddiad, gan gyfeirio at ganllawiau Sefydliad Radioleg Prydain.	Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol / arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad	10/12/21
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn deall sut mae adborth cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau.	Safon 6.3 – Gwrando a dysgu o adborth	Gwybodaeth i'w rhannu â staff trwy e-bost a thrwy gyfrwng posterï pan wneir gwelliannau, gan gynnwys gwybodaeth am	Arweinydd Ansawdd, Diogelwch a	26/11/21

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>sut mae adborth cleifion wedi dylanwadu ar hyn. Gwelliannau a wneir yn dilyn canmoliaeth/pryderon gan gleifion i'w rhannu mewn cyfarfodydd Diogelwch ac Ansawdd.</p> <p>Trafod a gweithio gyda'r tîm profiad cleifion i ailgyflwyno arolygon adborth cleifion pan fo hynny'n briodol o dan yr arweiniad cyfredol ar atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Profiad / arweinydd gwella gwasanaeth</p> <p>Arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</p>	<p>Yn unol â chyfarwydd d yr adran atal a rheoli heintiau</p>
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau'r holl weithdrefnau i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae un weithdrefn glir, ddiamwys i staff ei dilyn sy'n ymwneud â phob un o'r 14 gweithdrefn cyflogwr sy'n ofynnol gan RhYİ(CM) 2017 	<p>RhYİ(CM) 2017 Rheoliad 6(1)(a)(b) ac Atodlen 2</p>	<p>Adolygu a diweddarau holl weithdrefnau RhYİ(CM) y cyflogwr, gan ddefnyddio hyperddolenni i osgoi dyblygu lle bo hynny'n bosibl. Crynhoi'r gweithdrefnau cyfredol a newid y rheini lle bo angen i ddogfennau ategol. Gweithdrefnau'r cyflogwr i gynnwys gwybodaeth a bennir yn yr adroddiad a</p>	<p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol a'r arweinydd Ansawdd,</p>	<p>10/12/21</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Dylai pob gweithdrefn gynnwys gwybodaeth a ddarperir yng nghanllaw RhYŷ(CM). Ni ddylai'r holl ddogfennau eraill ddyblygu cynnwys o weithdrefnau'r cyflogwr, ond yn hytrach dylent gyfeirio at gynnwys y ddogfen wreiddiol neu gynnwys hyperddolenni i'r dogfennau hyn Mae gweithdrefn y cyflogwr sy'n ymwneud â delweddu anfeddygol yn adlewyrchu dosbarthiad RhYŷ(CM) cywir yr achosion hyn o gysylltiad ag ymbelydredd yn ogystal â'r wybodaeth ofynnol fel y manylir yng nghorff yr adroddiad. Ni ddylid cynnwys cyfeiriad at dreialon clinigol neu achosion post-mortem o gysylltiad ag ymbelydredd yng ngweithdrefn y cyflogwr ar gyfer delweddu anfeddygol 	<p>Atodlen 2 (m)</p> <p>Atodlen 2 (e)</p>	<p>chanllawiau Sefydliad Radioleg Prydain i'w defnyddio i gynorthwyo gydag ysgrifennu gweithdrefnau.</p> <p>Ar ôl eu diweddarau, bydd holl weithdrefnau'r cyflogwr yn cael eu rhannu o fewn yr adran Radioleg ar y system rheoli ansawdd a thrwy'r fewnwyd, i sicrhau eu bod yn hygyrch i bob gweithiwr proffesiynol yn y bwrdd iechyd.</p>	<p>Diogelwch a Phrofiad</p>	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Mae gweithdrefn y cyflogwr yn adlewyrchu sut y gellir adnabod y sawl sy'n gyfrifol am y broses adnabod, a sefyllfaoedd pan fo mwy nag un gweithredwr yn cymryd rhan mewn archwiliad Mae gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith mewn perthynas ag atgyfeiriadau a chanllawiau atgyfeirio i unigolion eu dilyn 				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae canllawiau awdurdodi'n disgrifio'n glir yr un unigolyn a fydd yr ymarferydd ar gyfer yr holl atgyfeiriadau hynny a awdurdodir gan y radiograffwyr o dan eu canllawiau. Mae gweithdrefn y cyflogwr yn cynnwys mwy o eglurder a manylder yn ymwneud â gwirio statws beichiogrwydd gofalwyr a chysurwyr, 	<p>RhYi(CM) 2017 Rheoliad 10 (4) ac 11 (5)</p> <p>Atodlen 2 (n)</p>	<p>Canllawiau awdurdodi i'w hadolygu a'u diweddarau lle bo hynny'n berthnasol. Lle bo hynny'n briodol, bydd yr ymarferydd awdurdodi a enwir yn llofnodi canllawiau awdurdodi.</p> <p>Wrth adolygu a diweddarau holl weithdrefnau RhYi(CM) y cyflogwr, bydd y weithdrefn gofalwyr a chysurwyr yn cael ei diweddarau i gynnwys gwirio beichiogrwydd, ystyriaethau</p>	<p>Arweinwyr dulliau lle bo angen / arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad / Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol</p>	<p>19/11/21</p> <p>10/12/21</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>os yw'r gofalwr neu'r cysurwr o dan 18 oed ai peidio, a dylid sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi.</p>		<p>sy'n gysylltiedig ag oedran, a chofnodi gwybodaeth o'r fath.</p>	<p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol a'r arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</p>	
<p>Mae'n rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dim ond un weithdrefn cyflogwr sydd ar gyfer lefelau cyfeirio diagnostig. Dylai pob cyfeiriad at lefelau cyfeirio diagnostig mewn dogfennau eraill gyfeirio at y ddogfen hon er mwyn osgoi dyblygu. Dylid diweddarau gweithdrefn y cyflogwr i gynnwys mwy o fanylion ynghylch pwy sy'n darparu'r gwerthusiad clinigol. Dylai hyn gynnwys y meysydd a ddisgrifir ym mhrif gorff yr adroddiad, 	<p>RhYI(CM) 2017 Atodlen 2(f)</p> <p>Atodlen 2 (j)</p>	<p>Adolygu a diweddarau holl weithdrefnau RhYI(CM) y cyflogwr i adlewyrchu arfer cyfredol a'u crynhoi lle bo angen er mwyn osgoi dyblygu.</p> <p>Manylion ychwanegol i'w cynnwys yn y gweithdrefnau fel sy'n ofynnol ac wedi'i nodi yn yr adroddiad ac yng nghanllawiau Sefydliad Radioleg Prydain.</p>	<p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol a'r arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</p>	<p>10/12/21</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>megis lle mae'r gwerthusiad yn cael ei gofnodi a beth sy'n digwydd pan fydd y gwerthusiad yn digwydd y tu allan i radioleg ar gyfer pob maes lle mae hyn yn digwydd.</p>				
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddarir gweithdrefn y cyflogwr i gynnwys gwybodaeth briodol, y cafodd peth ohoni ei chynnwys yn y ffurflen hunanasesu, ac yn ystyried cynnwys y manylion a ddisgrifir yn y canllaw RhYŷ(CM). • Mae'r stocrestr o gyfarpar yn gyfredol ac yn cynnwys y fraich siâp C fach y cyfeiriwyd ati uchod ac unrhyw gyfarpar arall sy'n cael ei ddefnyddio ac sydd heb ei restru. 	<p>Atodlen 2 (d)</p> <p>RhYŷ(CM) 2017 Rheoliad 15(1)(b) Rheoliad 15(2)</p>	<p>Adolygu a diweddarau holl weithdrefnau RhYŷ(DM) y cyflogwr i adlewyrchu arfer cyfredol a'u crynhoi lle bo angen er mwyn osgoi dyblygu.</p> <p>Manylion ychwanegol i'w cynnwys yn y gweithdrefnau fel sy'n ofynnol ac wedi'i nodi yn yr adroddiad.</p> <p>Adolygiad o offer mewn radioleg i'w gynnal a diweddarau stocrestr lle bo angen, gan gynnwys offer ymbelydredd a ddefnyddir y tu allan i radioleg.</p>	<p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol a'r arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</p>	<p>10/12/21</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau mai dim ond un weithdrefn cyflogwr sy'n ymwneud â threalion clinigol a'i bod yn cael ei diweddarau i gynnwys y manylion a ddarperir yn y ffurflen hunanasesu.</p>	<p>Safon 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi RhYİ(CM) 2017 Rheoliad 12(4) Atodlen 2 (g)</p>	<p>Adolygu a diweddarau gweithdrefnau RhYİ(CM) y cyflogwr, gan gynnwys ar gyfer treialon clinigol.</p>	<p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol a'r arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</p>	<p>10/12/21</p>
<p>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</p>				
<p>Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymerir camau i leihau'n sylweddol nifer yr achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn ddamweiniol neu'n anfwriadol ar gyfer staff a chleifion • Esbonnir y broses hawliau yn glir mewn un weithdrefn cyflogwr sy'n cynnwys yr holl fanylion ynghylch hawliau, dirprwyo, gofynion hyfforddi a'r broses hawliau 	<p>RhYİ(CM) 2017 Rheoliad 8(3)</p> <p>RhYİ(CM) 2017 Atodlen 2(b)</p>	<p>Gwybodaeth yn ymwneud ag ystadegau digwyddiadau a phwyntiau dysgu allweddol yn cael ei rhannu ar y fewnwyd bob chwarter i gyrraedd holl ddeiliaid dyletswydd RhYİ(CM) 2017.</p> <p>Adolygu a diweddarau gweithdrefn RhYİ(CM) y cyflogwr ar gyfer rhaglenni hawliau a sicrhau ansawdd fel rhan o adolygiad o'r holl weithdrefnau RhYİ(CM).</p> <p>Adolygiad o weithdrefn RhYİ(DM) y cyflogwr ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n</p>	<p>Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol a'r arweinydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad</p>	<p>10/12/21</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Mae gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer rhaglenni sicrhau ansawdd sy'n ymwneud â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig yn cael ei hadolygu a'i dyddio i gynnwys sylwadau rheolwyr yn y ffurflen hunanasesu. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio templed safonol, rheoli fersiynau, a chloi dogfennau fel na ellir eu newid o bell Mae'r prosesau ar gyfer rheoli digwyddiadau ac ymchwilio i ddigwyddiadau ac adrodd arnynt, a ddarperir fel gweithdrefnau RhYŷ(CM) y cyflogwr, yn cael eu diweddarau ac mae'r wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys 	<p>RhYŷ(CM) 2017 Rheoliad 6(5)(b) ac Atodlen 2(d)</p> <p>RhYŷ(CM) 2017 Rheoliad 8(3)</p> <p>Rheoliad 8 (4)(a)(i-iv)</p>	<p>arwyddocaol yn glinigol, ac adrodd arnynt, sy'n ymwneud ag achosion anfwriadol neu ddamweiniol o gysylltiad ag ymbelydredd.</p> <p>Adolygu a diweddarau'r datganiad o ddiben lleol ar gyfer rheoli digwyddiadau ym maes radioleg a chynnwys dolen i weithdrefn RhYŷ(CM) newydd y cyflogwr ar gyfer achosion anfwriadol neu ddamweiniol sy'n arwyddocaol yn glinigol o gysylltiad ag ymbelydredd.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau ar waith sy'n cyflawni'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Caniatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn 	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu Safon 6.2 Hawliau Pobl</p>	<p>Mae gan y bwrdd iechyd nifer o wahanol ffyrdd y gall staff adrodd neu godi pryderon. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r amser aros canfyddedig ar gyfer iechyd galwedigaethol.</p>		<p>Yn ddiweddar, mae'r bwrdd iechyd wedi gweithredu polisi Parchu a Datrys Problemau Cymru gyfan, gan ddisodli'r polisïau Urddas yn y Gweithle a Chwynion blaenorol. Mae hyfforddiant i staff a rheolwyr ar hyn yn cael ei gyflwyno ar draws y bwrdd iechyd.</p> <p>Bydd staff ym maes radioleg a ffiseg feddygol a pheirianeg glinigol yn cael eu hatgoffa o'r hyfforddiant hwn ac yn cael eu hannog a'u cefnogi i'w fynyachu.</p> <p>Bydd arolwg pwls yn cael ei gynnal i asesu effaith yr hyfforddiant a'r ymwybyddiaeth ar draws maes radioleg a maes ffiseg feddygol a pheirianeg glinigol</p> <p>Mae gan y bwrdd iechyd fenter 'Rhyddid i Lefaru'. Mae diogelwch a llesiant cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a staff bob amser wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Rydym</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol, Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol</p> <p>Adnoddau Dynol a Thîm Uwch-reolwyr y Bwrdd Clinigol</p>	<p>Erbyn Rhagfyr 2021</p> <p>Ebrill 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>wedi ymrwymo i feithrin diwylliant o fod yn agored ar draws pob rhan o'r sefydliad i'ch cefnogi a'ch annog i gyfleu unrhyw bryderon a allai fod gennych, gyda'r hyder y cewch eich trin â pharch ac urddas wrth wneud hynny. Dechreuwyd y fenter Rhyddid i Lefaru fel ffordd o greu amgylchedd sy'n galluogi ac yn grymuso staff i godi pryderon a allai fod ganddynt, neu y maent wedi arsylwi arnynt, yn eu maes gwaith ac i hysbysu'r corff neu awdurdod perthnasol, gan wybod y bydd camau yn cael eu cymryd o ganlyniad.</p> <p>Bydd yr holl staff ym maes radioleg a maes ffiseg feddygol a pheirianeg glinigol yn cael eu hatgoffa o'r fenter hon a sut i ddarganfod mwy o wybodaeth.</p> <p>Bydd arolwg pwls yn cael ei gynnal i asesu effaith ymwybyddiaeth ar draws maes</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol, Radioleg a</p>	<p>Rhagfyr 2021</p> <p>Ebrill 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>radioleg a maes ffiseg feddygol a pheirianeg Glinigol.</p> <p>Mae gan y bwrdd iechyd weithdrefn ar gyfer staff y GIG i godi pryderon. Nodau'r weithdrefn hon yw fel a ganlyn:</p> <p>a) Annog staff i drafod pryderon a materion diogelwch cyn gynted â phosibl, gan wybod y cymerir eu pryderon o ddifrif ac y gweithredir arnynt fel y bo'n briodol.</p> <p>b) Annog staff i adrodd am bryderon mwy difrifol ac unrhyw amheuaeth o gamwedd cyn gynted â phosibl, gan wybod y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn destun ymchwiliad fel y bo'n briodol, ac y parchir eu cyfrinachedd os yw'n ofynnol gwneud hynny.</p> <p>c) Rhoi arweiniad i staff ar sut i godi'r pryderon hynny.</p>	<p>Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol</p> <p>Adnoddau Dynol a Thîm Uwch-reolwyr y Bwrdd Clinigol</p>	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>ch) Tawelu meddwl staff y dylent allu codi pryderon gwirioneddol heb ofni dial, hyd yn oed os ydynt yn cael eu camgymryd.</p> <p>Bydd yr holl staff ym maes radioleg a maes ffiseg feddygol a pheirianeg glinigol yn cael eu hatgoffa o'r weithdrefn hon a sut i gael mynediad ati.</p> <p>Bydd arolwg pwls yn cael ei gynnal i asesu effaith ymwybyddiaeth ar draws maes radioleg a maes ffiseg feddygol a pheirianeg glinigol.</p> <p>Mae'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bawb yr hawl i gael ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rydym am i'n holl weithwyr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae'n ddyletswydd ar y bwrdd iechyd prifysgol i weithredu yn erbyn gweithwyr, cleifion neu'r cyhoedd sy'n gweithredu yn erbyn y</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol, Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol</p> <p>Adnoddau Dynol a Thîm</p>	<p>Rhagfyr 2021</p> <p>Ebrill 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>deddfau ar gydraddoldeb. Bydd unrhyw ymddygiad gwahaniaethol gan staff yn cael ei drin fel trosedd ddisgyblu ac yn destun cosbau o dan y Polisi Disgyblu. Gellid gwrthod mynediad i wasanaethau neu adeiladau i aelodau'r cyhoedd neu gleifion os ydynt yn anwybyddu deddfau a pholisïau cydraddoldeb yn fwriadol. Rydym yn benderfynol i gyflawni'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> •Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon. •Gwella cyfleoedd cyfartal. •Annog cysylltiadau da. <p>Yn ddiweddar, penododd Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol Gynghreiriaid Cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y rolau hyn yn cael eu lansio ar draws y bwrdd clinigol erbyn mis Rhagfyr 2021. Bydd y rolau hyn, ynghyd â'r Hyrwyddwyr Lles ac Iechyd Meddwl, yn cefnogi ein staff i deimlo eu bod</p>	Uwch-reolwyr y Bwrdd Clinigol	Rhagfyr 2021

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>yn cael eu clywed a'u trin yn deg a chydag urddas a pharch.</p> <p>Lansio Cynghreiriaid Cydraddoldeb Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol.</p> <p>Mae Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol wedi buddsoddi mewn dwy ffilm codi ymwybyddiaeth: un i helpu staff i roi gwerthoedd y bwrdd iechyd ar waith ac un i gynorthwyo staff a rheolwyr i godi ymwybyddiaeth iechyd meddwl. Bydd y rhain yn cael eu treialu o fewn y bwrdd clinigol ac yna'n cael eu rhaeadru ar draws y bwrdd iechyd. Mae cynllun i gyflwyno'r rhain ar draws y bwrdd clinigol yn cael ei gytuno ar hyn o bryd.</p> <p>Argymhellir bod y Gyfarwyddiaeth Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianneg Glinigol yn cael ei blaenoriaethu ar gyfer y sesiynau ymwybyddiaeth hyn.</p>	<p>Tîm Uwch-reolwyr Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol</p>	<p>Mawrth 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Oherwydd cynnydd o 45% yn nifer yr atgyfeiriadau gan reolwyr at y gwasanaeth lechyd Galwedigaethol, a gostyngiad mewn capasiti oherwydd salwch a swyddi gwag yn y gwasanaeth, ar hyn o bryd mae amser aros o dri mis ar gyfer atgyfeiriadau gan reolwyr. Yn ogystal â hyn, mae'r darparwr ar gyfer meddygon iechyd galwedigaethol yn dod â'i gontract i ben oherwydd ei faterion recriwtio ei hun, sydd wedi lleihau'r gallu clinigol ymhellach.</p> <p>Mae'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae gwasanaethau lechyd Galwedigaethol a Chaffael yn defnyddio'r Fframwaith Iechyd Galwedigaethol Cenedlaethol i gaffael darparwr arall a fydd yn cychwyn cyn gynted ag y bydd y contract presennol yn dod i ben ym mis Tachwedd. 	<p>Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol / Rheolwr Cyffredinol Radioleg ac Adnoddau Dynol</p>	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> • Mae nyrsys iechyd galwedigaethol wedi'u recriwtio i swyddi gwag ac mae'r recriwtio yn parhau ar gyfer swyddi gwag presennol. • Tra bo gwaith recriwtio ac absenoldebau salwch yn parhau, mae iechyd galwedigaethol yn darparu adnoddau ar gyfer sesiynau clinigol nyrsio ychwanegol i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn y gallu nyrsio. • Mae'r pennaeth gwasanaeth yn brysbennu pob atgyfeiriad, a lle bo hynny'n briodol, mae'n darparu cyngor uniongyrchol i reolwyr llinell ac yn eu cyfeirio at wybodaeth/gwasanaethau priodol heb fod angen ymgynghoriad. • Mae cydweithwyr adnoddau dynol yn cefnogi iechyd galwedigaethol ac yn darparu cyngor i reolwyr ynghylch 		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>pryd i atgyfeirio rhywun at iechyd galwedigaethol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae iechyd galwedigaethol yn cynnig cyfle i fod yn bresennol yn rhithiol, yn ogystal ag apwyntiadau dros y ffôn, i atal yr angen i deithio at iechyd galwedigaethol, a thrwy hynny mae'n gwneud mynediad yn haws. Datblygwyd canllawiau i gynorthwyo rheolwyr llinell wrth ystyried atgyfeirio rhywun at iechyd galwedigaethol i sicrhau bod yr adnoddau cywir yn cael eu defnyddio yn brydlon. Mae opsiynau eraill i atgyfnerthu/gwella darpariaeth y gwasanaeth yn cael eu harchwilio. <p>Y Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol a'r Gyfarwyddiaeth Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol i</p>	<p>Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol a'r</p>	<p>Rhagfyr 2021 ac yn parhau</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyrifol	Amserlen
		weithredu'r camau uchod lle a phan fo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol.	Gyfarwyddiaeth Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianneg Glinigol	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod prosesau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cydymffurfedd hyfforddiant gorfodol ar gyfer yr holl staff yn cael ei wella a'i gynyddu i ganran uwch na'r 85% sy'n cael ei ystyried yn "wyrdd" ar y dangoswrdd perfformiad Cwblheir arfarniadau perfformiad ar gyfer yr holl staff yn brydlon, a bod y cydymffurfedd hwn yn cael ei gynnal i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion i gyflawni eu dyletswyddau a chynnal eu datblygiad 	Safon 7.1 – Y Gweithlu	<p>Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad o gydymffurfedd hyfforddiant gorfodol a statudol ar draws y bwrdd iechyd. Argymhellodd yr adolygiad hwn y camau gweithredu canlynol:</p> <p>Parhau i ddarparu misoedd penodol o hyfforddiant Lefel 1 dros Google Classroom. Mae'r uned tân yn darparu wythnos o sesiynau galw i mewn dros Google Classroom ar ddechrau mis Hydref 2021.</p> <p>Gweithio gydag arbenigwyr pwnc i adolygu'r hyfforddiant a ddarperir ac addaswydd defnyddio Microsoft Teams neu ddulliau cyflwyno dros Google Classroom.</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Archwilio camau i symleiddio'r mynediad at fodiwlau e-ddysgu, gan ddefnyddio system cofnod staff electronig awtomatig i gofrestru.</p> <p>Parhau i weithio'n agos gydag lechyd a Diogelwch i archwilio'r gofynion hyfforddi ar gyfer eu cyfres o hyfforddiant ac i sicrhau bod cofnodion cydymffurfio staff yn gywir.</p> <p>Cyfrannu at y gwaith sy'n digwydd ledled Cymru.</p> <p>Darparu cyfres o ddeunyddiau hyfforddi i helpu staff a rheolwyr i ddefnyddio'r system cofnod staff electronig i sicrhau cydymffurfedd.</p> <p>Gwella'r broses gyda Nyrsys Datblygu Ymarfer i sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn cael ei ddal a'i gofnodi trwy'r cofnod staff electronig.</p> <p>Archwilio ac ymchwilio i'r posibilrwydd o asesu cymhwysedd staff cyn iddynt</p>		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gwblhau'r hyfforddiant. Bydd hyn yn sicrhau bod staff ond yn cwblhau modiwlau penodol o'r hyfforddiant y mae angen iddynt ei wneud fel y nodwyd o'r asesiad. Trafodwyd y prosiect hwn i gael ei weithredu ar sail Cymru gyfan, a allai gyfyngu ar gynnydd yn lleol.</p> <p>Yn ogystal â gweithredu'r uchod, bydd yr holl staff yn y Gyfarwyddiaeth Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb eu hunain i sicrhau eu bod yn cynnal eu cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol a statudol.</p> <p>Adolygu cydymffurfedd hyfforddiant gorfodol a statudol ar gyfer yr holl staff yn y Gyfarwyddiaeth Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol.</p> <p>Rheolwyr i sicrhau cydymffurfedd ym mhob arfarniad ar sail gwerthoedd.</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol, Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol</p> <p>Rheolwr Cyffredinol, Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol</p>	<p>Erbyn diwedd Rhagfyr 2021</p> <p>Erbyn diwedd Rhagfyr 2021</p> <p>Erbyn diwedd mis Mawrth 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Roedd y bwrdd iechyd i fod i lansio arfarniadau ar sail gwerthoedd o fis Mawrth 2020. Fodd bynnag, penderfynwyd atal y lansiad hwn oherwydd y pandemig, gyda'r ymdrechion yn canolbwyntio ar ymdopi â gofynion y pandemig, ac yn bwysicaf oll parhau i ddarparu gofal rhagorol i'n cleifion a'n poblogaeth.</p> <p>Gwnaed penderfyniad ar sail Cymru gyfan i ohirio cyflwyno datblygiad cyflog. Mae'r penderfyniad hwn bellach wedi'i ddiweddarau, ac, o 1 Hydref 2021, bydd y dull datblygiad cyflog yn cael ei adfer, a fydd yn golygu y bydd angen i'r holl staff sydd i fod i gael codiad cyflog ar 1 Hydref 2022 neu ar ôl hynny gael trafodaeth ar ddatblygiad eu cyflog fel rhan o'u harfarniad.</p>	<p>Pob rheolwr ym maes Radioleg a maes Ffiseg Feddygol a Pheirianneg Glinigol</p>	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno ar y camau canlynol i gynorthwyo gydag ail-lansio arfarniadau ar sail gwerthoedd ac i wella cydymffurfedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal ymgyrch cyfryngau cymdeithasol sy'n edrych ar agweddau allweddol o arfarniadau ar sail gwerthoedd ac yn trosglwyddo adborth gan staff sydd wedi cymryd rhan yn y broses • Datblygu fersiwn symlach o'r ddogfennaeth arfarniadau ar sail gwerthoedd i symleiddio'r broses i reolwyr • Cynlluniau gwella'r bwrdd clinigol i'w datblygu i roi sicrwydd y bydd nifer yr arfarniadau yn gwella dros y 6-12 mis nesaf • Cynyddu'r hyfforddiant sydd ar gael i reolwyr trwy ddull cyfunol (wyneb yn wyneb a rhithwir) 		Bob mis ac yn barhaus

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi rheolwyr i fewnbynnu data arfarniadau ar sail gwerthoedd i'r cofnod staff electronig, trwy ddatblygu canllawiau ysgrifenedig a fideo â chyfarwyddiadau cyflym • Ymgysylltu â rheolwyr lle mae cyfraddau arfarnu yn is na'r disgwyl i gynnig hyfforddiant cymorth ychwanegol, ac ati • Dull datblygiad cyflog – codi ymwybyddiaeth y bydd hyn yn cychwyn eto o 1 Hydref <p>Bydd y Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol yn cefnogi'r camau hyn ac yn monitro cynnydd trwy broses adolygu perfformiad misol y bwrdd clinigol.</p> <p>Bydd y Gyfarwyddiaeth Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianneg Glinigol yn gweithredu'r camau uchod ac yn adrodd ar gynnydd trwy broses adolygu perfformiad misol y bwrdd clinigol.</p>	<p>Uwch-dîm y Bwrdd Clinigol Diagnosteg a Therapiwteg Glinigol</p> <p>Rheolwr Cyffredinol Radioleg</p>	<p>Diwedd mis Rhagfyr 2021</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Alicia Christopher

Swydd: Rheolwr Cyffredinol, Radioleg a Ffiseg Feddygol a Pheirianeg Glinigol (RMPCE) a Cedar (Dros Dro)

Dyddiad: 29/10/2021